



Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

## **Garchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Charchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed**

gan Brif Arolygydd Carchardai EM

14–25 Mehefin 2021



# Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Gwybodaeth am Frynbuga a Phrescoed .....	5
Adran 1 Crynodeb o ganfyddiadau allweddol.....	8
Adran 2 Diogelwch .....	17
Adran 3 Parch .....	25
Adran 4 Gweithgaredd pwrpasol .....	42
Adran 5 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau.....	48
Adran 6 Argymhellion yn yr adroddiad hwn.....	56
Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf .....	59
Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau ac adroddiadau...	64
Atodiad II Geirfa.....	67
Atodiad III Adnoddau eraill.....	70

# Cyflwyniad

Mae Brynbuga a Prescoed, fel yr awgryma'r enwau, yn ddau garchar ar wahân, er eu bod yn cael eu rheoli fel un endid. Mae Brynbuga yn sefydliad bach a adeiladwyd mewn arddull draddodiadol o'r 19eg ganrif a oedd yn cynnwys 220 o garcharorion categori C, a bron pob un ohonynt yn bwrw dedfryd am droseddau rhyw. Mae Prescoed yn garchar agored mewn lleoliad gwledig iawn tua thair milltir i ffwrdd, gyda ffocws clir ar ailsefydlu'r 231 o ddynion a ddaliodd yn ystod ein harolwg.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Arolygiaeth yn rheolaidd wedi adrodd yn gadarnhaol iawn ar y canlyniadau a brofir gan garcharorion yn y ddau safle, ac mae hyn yn dal yn wir. Drwy wneud asesiadau carchar iach ar wahân, roeddem wedi barnu bod y canlyniadau o ran diogelwch a pharch yn dda (ein marc uchaf) ym Mrynbuga a Phrescoed a'u bod yn eithaf da neu'n well ar gyfer gweithgareddau pwrpasol ac adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau. Mae'r canlyniadau rhagorol hyn yn fwy nodedig oherwydd eu bod wedi'u cyflawni yn dilyn effeithiau'r pandemig ar y carchar. Dylid nodi bod Brynbuga, yn benodol, wedi wynebu heriau a risgiau gwirioneddol iawn wrth ymateb i COVID-19, gyda phoblogaeth sy'n gyffredinol hŷn a mwy agored i niwed, a'r drasiedi o golli dau aelod staff a charcharor. Roedd y carchar, yn ein barn ni, wedi dangos gwytnwch rhyfeddol yn ei ymateb.

Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant parhaus y carchardai oedd ansawdd yr arweinyddiaeth. Roedd ymdeimlad gwirioneddol o gymuned yn y carchardai gyda staff ymgysylltiedig ac, at ei gilydd, roedd yr ymgynghori a gynhaliwyd yn dda. Roedd hi'n amlwg o'n harolwg bod carcharorion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi gan staff a gwelsom nifer o enghreifftiau yn ystod ein harolwg lle roedd lles carcharorion wrth galon cynlluniau ac ystyriaeth glir o ran sut roedd y carchar yn cael ei ddatblygu. Un enghraifft o'r fath oedd y gymeradwyaeth ffurfiol i Frynbuga fel Amgylchedd Galluogi, achrediad a gafwyd yn ystod y pandemig (gweler paragraffau 1.45 a 3.5 ). Yn yr un modd, gwelsom drefniadau gofal cymdeithasol rhagorol.

Wrth iddi ymddangos bod y pandemig yn cilio, roedd y ddau garchar wedi symud yn gyflym o fewn fframwaith rheoli risg y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i agor eu cyfundrefnau, a dywedwyd wrthym fod y carchardai ymysg y cyntaf i symud ymlaen i 'gam 2' Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, dynodiad sy'n diffinio i ba raddau y gellid agor y cyfundrefnau ymhellach. Yn y cyd-destun hwn, roedd yn braf gweld bod rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) wedi parhau yn ystod y cyfyngiadau ar gyfer y carcharorion hynny o Brescoed a ddiffiniwyd fel gweithwyr hanfodol, a bod 60% o garcharorion Prescoed bellach yn elwa o wahanol fathau o ROTL erbyn yr arolygiad. Roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod gwaith ac addysg yn dod yn gwbl weithredol ond roedd gennym ffydd yng nghynlluniau'r carchardai a'u record cyflawni sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

Mae ein hadroddiad yn nodi nifer fach o faterion y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys rhywfaint o ailwampio llety ym Mhrescoed a lliniaru effaith rhywfaint o orlenwi ym Mrynbuga. Rydym hefyd wedi nodi'r nifer

cymharol uchel o garcharorion a gafodd eu dychwelyd i amodau caeedig gan Brescoed, sydd o bosibl yn gysylltiedig â defnyddio polisi 'dim goddefgarwch' fel y'i gelwir sy'n ymwneud â chymhwyso rheolau ar y safle. Ond ar wahân i'r materion hyn, roedd hi'n amlwg i ni bod y cadernid a oedd yn cael ei ddangos gan arweinwyr, staff a charcharorion Brynbuga a Prescoed yn sicrhau bod y rheini a oedd yn cael eu dal yn parhau i brofi canlyniadau ystyrlon a chadarnhaol.

**Charlie Taylor**

Prif Arolygydd Carchardai EM

Awst 2021

# Gwybodaeth am Frynbuga a Phrescoed

## Tasg y carchar/sefydliad

Mae Brynbuga yn garchar adsefydlu a darparwr triniaeth troseddwyd rhyw cenedlaethol categori C ar gyfer dynion sy'n oedolion. Mae Prescoed yn garchar adsefydlu agored i ddynion sy'n oedolion a dynion ifanc.

## Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler Atodiad II:) Geirfa)

### Brynbuga

- Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 220
- Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 159
- Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 159
- Capasiti gweithredol: 254

### Prescoed

- Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 231
- Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 260
- Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 260
- Capasiti gweithredol: 260

## Poblogaeth y carchar

### Brynbuga

- Roedd 45% o'r boblogaeth dros 50 oed.
- Roedd 10.45% o'r carcharorion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.
- Roedd 10 o garcharorion yn wladolion tramor.
- Roedd gan 12 carcharor lai na dau fis o ddedfryd ar ôl.
- Cafodd 78.18% o garcharorion eu dedfrydu i bum mlynedd neu fwy.
- Roedd 99.09% o garcharorion wedi'u cael yn euog o drosedd rhywiol.
- Roedd 8.63% o ddynion yn gweithio gyda'r tîm defnyddio sylweddau.

### Prescoed

- Roedd 21.05% o'r boblogaeth dros 50 oed.
- Roedd 14.91% o'r carcharorion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.
- Nid oedd unrhyw wladolion tramor yn garcharorion yng Ngharchar Prescoed.
- Roedd gan 27 carcharor (11.84%) lai na dau fis o ddedfryd ar ôl.
- Cafodd 72.26% o garcharorion eu dedfrydu i bum mlynedd neu fwy.
- Roedd 8.33% o garcharorion wedi'u cael yn euog o drosedd rhywiol.
- Roedd 13.15% o ddynion yn gweithio gyda'r tîm defnyddio sylweddau.

## Statws carchardai a darparwyr allweddol

### Cyhoeddus

Darparwr iechyd meddwl a chorfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Darparwr triniaeth ar gyfer defnyddio sylweddau: Dyfodol

Darparwr fframwaith addysg mewn carchardai: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS)

Cwmni adsefydlu cymunedol (CRC): Ymddiriedolaeth St Giles wedi'i  
chomisiynu gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol Seetec  
Contractiwr hebrwng: GEOAmev

## **Rhanbarth y carchar**

Cymru

### **Hanes yn gryno**

Agorodd Brynbuga yn 1844 fel tŷ cywiro. Yn 1870, daeth yn garchar sirol i Sir Fynwy ac arhosodd yn y rôl honno tan 1922, pan gaeodd. Ailagorodd yn 1939 fel borstal caeedig a daeth yn ganolfan gadw yn 1964. Ym 1983, cafodd ei droi'n ganolfan cadw pobl ifanc, ac o 1988 i 1990 yn sefydliad i droseddwr ifanc. Ers Mai 1990, mae wedi bod yn sefydliad categori C i oedolion sy'n dal dynion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhyw i raddau helaeth. Daeth yn garchar adsefydlu yn 2019.

Agorodd Prescoed ym 1939 fel borstal agored. Daeth yn ganolfan gadw yn 1964, canolfan cystodaeth pobl ifanc agored yn 1983 a sefydliad troseddwr ifanc agored yn 1988. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, dechreuodd hefyd ddal dynion sy'n oedolion categori D. Ers 2004, mae wedi bod yn garchar agored yn unig i ddynion sy'n oedolion, gan gynnwys dynion ifanc rhwng 18 a 21 oed.

### **Disgrifiad byr o unedau preswyl**

Ym Mrynbuga, roedd y llety'n cynnwys pedair adain:

- A, B ac C – pob un â glaniadau dau lawr. Cafodd glaniad A1 ei ddefnyddio fel unedau ynysu gwarchodol (PIU) (llety ar gyfer achosion COVID-19 hysbys neu debygol) ac unedau cohort adfer (RCUs) (gweler Atodiad II: Geirfa) yn ystod cyfnod prysuraf y pandemig.
- Adain D – uned gwarchod un llawr.

Ym Mhrescoed, roedd 10 uned breswyl; roedd pob un ac eithrio uned Lester yn un llawr, yn cynnwys cymysgedd o ystafelloedd sengl a dwbl:

- Uned Mitchell – llety un ystafell mwy ar gyfer carcharorion sy'n gweithio yn y gymuned.
- Dau dŷ pâr – llety i hyd at wyth o ddynion tymor hir, yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- Roedd pedwar deg o bodiau dros dro gyda'u cyfleusterau en-suite eu hunain, ac roedd 20 ohonynt wedi cael eu defnyddio fel PIU a RCU yn ystod COVID-19, a'r gweddill yn lletya'r rheini sy'n gweithio y tu allan i'r carchar.

### **Enw'r llywodraethwr/cyfarwyddwr a dyddiad dechrau ar ei swydd**

Giles Mason, Ebrill 2017

### **Newidiadau mewn arweinyddiaeth ers yr arolygiad diwethaf**

Dirprwy lywodraethwr y ddau garchar – Sophie Lozano o fis Mawrth 2020 ymlaen

Dirprwy lywodraethwr y ddau garchar – Ash Thomas o fis Mai 2021 ymlaen

### **Cyfarwyddwr grŵp carchardai**

Kenny Brown

**Cadeirydd Bwrdd Monitro Annibynnol**

Julian Williams

**Dyddiad yr arolygiad diwethaf:**

9-19 Hydref 2017



## Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- 1.1 Roeddem wedi arolygu Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Charchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Prescoed ddiwethaf yn 2017 ac wedi gwneud 29 o argymhellion, ac roedd pedwar ohonynt yn ymwneud â meysydd o bryder allweddol. Derbyniodd y carchar 24 o'r argymhellion yn llwyr a derbyniwyd pump yn rhannol (neu'n ddibynnol ar adnoddau).
- 1.2 Mae adran 7 yn cynnwys rhestr o argymhellion a wnaed yn yr arolygiad llawn diwethaf.

### Cynnydd gyda'r prif bryderon ac argymhellion

- 1.3 Cynhaliwyd ein harolygiad diwethaf o Garchar EM Brynbuga a Charchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Prescoed cyn pandemig COVID-19, ac roedd yr argymhellion yn yr adroddiad hwnnw'n canolbwyntio ar feysydd pryder a oedd yn effeithio ar ganlyniadau i garcharorion ar y pryd. Er ein bod yn cydnabod y bydd yr heriau o gadw carcharorion yn ddiogel yn ystod COVID-19 wedi newid ffocws llawer o arweinwyr carchardai, credwn ei bod yn bwysig dilyn argymhellion ynghylch meysydd o bryder allweddol er mwyn helpu arweinwyr i barhau i hybu gwelliant.
- 1.4 Gwnaethom un argymhelliad am bryder allweddol ym maes gweithgarwch pwrpasol. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod yr argymhelliad wedi'i gyflawni. Bu Estyn yn ymweld ochr yn ochr â'n harolwg i asesu'r cynnydd yr oedd arweinwyr a rheolwyr wedi'i wneud tuag at adfer cwricwlwm addysg, sgiliau a gwaith llawn.
- 1.5 Gwnaethom dri argymhelliad am bryderon allweddol ym maes cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod un o'r argymhellion hynny wedi'i gyflawni, a bod dau wedi'u cyflawni'n rhannol.


### Canlyniadau i garcharorion

- 1.6 Rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion yn erbyn pedwar prawf carchar iach (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Yn yr arolygiad hwn o Garchar EM Brynbuga gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion wedi aros yr un fath ym mhob un o'r pedair maes carchar iach.
- 1.7 Yn yr arolygiad hwn o Garchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Prescoed gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion wedi aros yr un fath ym mhob un o'r pedwar maes carchar iach.
- 1.8 Mae'r penderfyniadau hyn yn ceisio gwneud asesiad gwrthrychol o'r canlyniadau y mae'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth yn eu profi, ac maent wedi ystyried adferiad y carchar o COVID-19 yn ogystal â'r 'cam cyfundrefnol' lle roedd y carchar yn gweithredu, fel yr amlinellir yn




## Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ar gyfer gwasanaethau a gweithdrefnau carchardai.

**Ffigur 1: Canlyniadau carchar iach Carchar Brynbuga 2017 a 2021**



**Ffigur 2: Canlyniadau carchar iach HMP a YOI Prescoed 2017 a 2021**



### Diogelwch

Yn yr arolygiad diwethaf o Garchar EM Brynbuga a Charchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Prescoed yn 2017 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dal yn dda.

- 1.9 Roedd gweithwyr cymheiriaid yn darparu cefnogaeth dda i garcharorion newydd a oedd yn cyrraedd, ac roedd y staff yn gyfeillgar ac yn effeithlon. Fodd bynnag, nid oedd carcharorion bob amser yn gallu gwneud galwad ffôn ar eu noson gyntaf ym Mrynbuga.

- 1.10 Roedd lefelau trais yn y ddau safle yn dal yn isel iawn. Ychydig iawn o garcharorion sy'n dianc o Brescoed, er bod nifer y carcharorion sy'n dychwelyd i amodau caeedig yn uwch nag o'r rhan fwyaf o garchardai agored eraill. Roedd 'polisi dim goddefgarwch' yn golygu bod unrhyw ymddygiad a allai gael ei alw'n dreisgar neu sy'n cynnwys camddefnyddio cyffuriau neu ffôn symudol yn arwain at ddychwelyd yn syth i amodau caeedig, heb ystyried unrhyw fesurau lliniaru na'r effaith ar yr unigolyn.
- 1.11 Roedd defnyddio grym yn brin, ac roedd yr oruchwyliaeth yn dda. Nid oedd unrhyw uned wahanu ddynodedig ym Mrynbuga na Phrescoed, ond cafodd carcharorion a oedd yn dychwelyd i amodau caeedig gan Brescoed eu rhoi mewn ystafell gadw a oedd â thoiled heb ei sgrinio a dim cadair.
- 1.12 Roedd y systemau diogelwch yn gymesur, roedd y wybodaeth yn cael ei rheoli'n dda, ac roedd asesiadau tactegol lleol da iawn yn cael eu cyfleu'n dda i staff. Roedd yr holl waith diosg-chwilio ym Mhrescoed yn cael ei arwain gan wybodaeth, ond roedd yn dal i ddigwydd fel mater o drefn yn dilyn ymweliadau cymdeithasol ym Mrynbuga.
- 1.13 Bu un hunanladdiad ym Mrynbuga ers yr arolygiad blaenorol. Roedd lefelau hunan-niweidio yn dal yn isel iawn yn y ddau garchar. Roedd safon asesu, gofal yn y ddalfa a dogfennau rheoli achosion gwaith tîm ar gyfer carcharorion mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio yn dda ar y cyfan. Roedd Mynediad i Wrandawyr (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i ddarparu cefnogaeth emosiynol gyfrinachol i gyd-garcharorion) yn y ddau garchar hefyd yn dda ac roedd yr ardd les ym Mhrescoed yn groesawgar.
- 1.14 Yr oedd y polisi diogelu oedolion yn gynhwysfawr ac yr oedd cysylltiadau sefydledig gyda'r awdurdod lleol. Roedd y staff yn gwybod am y broses atgyfeirio.

## Parch

Yn yr arolygiad diwethaf o Garchar EM Brynbuga a Charchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Prescoed yn 2017 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dal yn dda.

- 1.15 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn ein harolwg wedi dweud eu bod wedi cael triniaeth barchus ac wedi dweud bod ganddyn nhw aelod o staff y gallan nhw fynd ato i gael help. Gwelsom ryngweithio cyfeillgar a chymwynasgar, ac roedd cofnodion nodiadau achos electronig rheolaidd yn dystiolaeth dda o ymgysylltu.
- 1.16 Roedd carcharorion hefyd yn gadarnhaol iawn am faterion preswyl yn y ddau garchar. Roedd yr ardaloedd cawod wedi cael eu hailwampio i safon dderbyniol. Er bod y celloedd mewn cyflwr da ar y cyfan, roedd

gormod o garcharorion ym Mrynbuga yn dal i fyw mewn amodau cyfyng, gan rannu celloedd a gynlluniwyd ar gyfer un person. Roedd carcharorion Prescoed yn fodlon iawn â'u trefniadau llety. Roedd yr ardaloedd allanol yn y ddau safle yn drawiadol.

- 1.17 Roedd cyfleusterau hunanarlwyo yn rhy gyfyngedig ac ar gael i nifer fach o garcharorion ym Mhrescoed yn unig. Ni chynigwyd pecynnau bwyd i garcharorion newydd ym Mhrescoed, a gallai carcharorion ym Mrynbuga a Phrescoed aros hyd at naw diwrnod am eu archeb siop lawn gyntaf.
- 1.18 Roedd y trefniadau ymgynghori yn y ddau garchar yn dda, ac roedd proses ymgeisio newydd wedi'i chyflwyno. Roedd nifer y cwynion yn is na'r cyfartaledd ar gyfer carchardai tebyg, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn rhesymol ac yn amserol.
- 1.19 Roedd angen gwella hyrwyddo cydraddoldeb, gan ddechrau gyda chynllun effeithiol a oedd yn pennu blaenoriaethau manwl ar gyfer y ddau garchar. Cafwyd ymgynghori rhesymol ac aml ym Mrynbuga, gan arwain at ganlyniadau gwell i leiafrifoedd, ond ni chafodd hyn ei ailadrodd ym Mhrescoed, lle gadawyd i ormod ddibynnu ar fenter y carcharorion heb ddigon o gefnogaeth gan staff a rheolwyr. Roedd y ddarpariaeth ffydd ar draws y ddau safle yn cael ei rheoli'n dda a dywedodd carcharorion eu bod yn cael gofal bugeiliol da.
- 1.20 Yn ein harolwg, dywedodd 95% o gleifion fod ansawdd cyffredinol gwasanaethau iechyd yn dda iawn neu'n eithaf da. Roedd cyngor amserol gan lechyd Cyhoeddus Cymru wedi galluogi arweinwyr i reoli'r sefyllfa'n dda yn ystod pandemig COVID-19. Roedd gofal sylfaenol yn dda iawn ac roedd gofal tymor hir wedi gwella.
- 1.21 Roedd y trefniadau gofal cymdeithasol yn ardderchog ac roedd y partneriaethau rhwng yr adran gofal iechyd, y cyngor lleol a'r carchardai yn effeithiol. Roedd y tîm iechyd meddwl ymatebol yn hawdd ei gyrraedd ac yn cynnig cefnogaeth a oedd yn cael ei gwerthfawrogi gan y cleifion y buom yn siarad â nhw. Fel yn 2017, roedd gwasanaethau seicogymdeithasol ar gyfer cleifion â phroblemau defnyddio sylweddau yn briodol. Roedd absenoldeb y fferylllydd a oedd yn ymweld, oherwydd adleoli COVID-19, wedi arwain at ddiffyg goruchwyliaeth broffesiynol o wasanaethau fferylliaeth. Roedd y gwasanaethau deintyddol yn dda ac roedd yr amseroedd aros ar gyfer triniaeth yn dderbyniol.

## **Gweithgarwch pwrpasol**

Yn yr arolygiad diwethaf o Garchar EM Brynbuga a Charchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed yn 2017 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dal yn rhesymol dda.

- 1.22 Ar gyfartaledd, roedd carcharorion ym Mrynbuga yn cael dwy awr a 45 munud allan o'u celloedd bob dydd i wneud ymarfer corff y tu allan, gwneud galwad ffôn, cael cawod a chyswllt. Nid oedd hyn cystal ag y byddem wedi gobeithio ond roedd yn cynrychioli cynnydd gan fod y carchar ymysg y cyntaf i symud i gam 2 cynllun adfer y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i lacio cyfyngiadau COVID-19 (gweler Atodiad II: Geirfa) Ym Mhrescoed, roedd mynediad i fannau awyr agored yn ddigyfngiad tan 8:30pm.
- 1.23 Roedd llyfrgelloedd ar draws y ddau garchar yn gweithredu yn ystod y pandemig er gwaethaf absenoldeb hir llyfrgellydd. Roedd carcharorion ymroddedig wedi cadw gwasanaethau ar waith, ond roedd angen ailgyflenwi stoc y llyfrgell. Roedd staff addysg gorfforol yn gweithredu ar draws y ddau safle ond nid oeddent yn gallu darparu amserlen lawn oherwydd lefelau staffio annigonol.
- 1.24 Roedd gan y carchar gynllun adfer clir ar waith ar gyfer addysg, gan alluogi carcharorion i ailafael mewn gweithgareddau, gan gadw pellter cymdeithasol ar yr un pryd. Roedd carcharorion ym Mhrescoed wedi cymryd rhan dda mewn lleoliadau gwaith yn y gymuned ac ar fferm y carchar drwy gydol cyfyngiadau COVID-19, ac roedd rhai ym Mrynbuga wedi cael eu cyflogi mewn swyddi hanfodol yn y carchar. Roedd rhai carcharorion wedi gwneud cynnydd ar gyrsiau'r Brifysgol Agored neu gyrsiau a oedd yn cael eu hariannu gan Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharorion. Dywedodd carcharorion fod athrawon a staff wedi bod yn gefnogol ac yn barod i helpu yn ystod cyfyngiadau COVID-19, gan eu helpu i gael mynediad at lyfrau, argraffiadau o'r rhyngwrwd a deunyddiau celf, yn ogystal â thafleuni gwaith.
- 1.25 Roedd mentoriaid a chymheiriaid yn annog ac yn cefnogi carcharorion yn effeithiol iawn er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn sesiynau addysg. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn gwybod pa nodau yn eu cynlluniau dysgu unigol yr oeddent wedi cytuno arnynt ac yn deall beth yr oedd angen iddynt ei wneud i wneud cynnydd. Roedd gan garcharorion yn y ddau safle fynediad rhesymol at gyfrifiaduron, er nad oedd gliniaduron ar gyfer eu defnyddio mewn celloedd yn addas, ac nid oedd modd cael gafael ar ddeunyddiau o'r rhith gampws (mynediad carcharorion i addysg gymunedol, hyfforddiant a chyfluoedd gwaith drwy'r rhyngwrwd) mewn dosbarthiadau.
- 1.26 Roedd y carchar wedi rhyngweithio'n dda â chyflogwyr i ymestyn yr ystod o gyfluoedd lleoliadau gwaith i garcharorion Prescoed. Roedd y carchardai hefyd wedi ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur wrth gynllunio'r cwricwlwm. Roedd cynllun sicrhau ansawdd defnyddiol ar waith.
- 1.27 Roedd rhai arddangosfeydd dwyieithog a rhai ohonynt yn hyrwyddo diwylliant Cymru. Fodd bynnag, roedd gwerthusiad y carchar ei hun o'i ddarpariaeth Gymraeg weithiau yn rhy gadarnhaol ac roedd rhai targedau o fewn y strategaeth iaith Gymraeg eto i'w cyrraedd.

## Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

Yn yr arolygiad diwethaf o Garchar EM Brynbuga yn 2017 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dal yn rhesymol dda.

Yn yr arolygiad diwethaf o Garchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Prescoed yn 2017 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dal yn dda.

- 1.28 Roedd ymweliadau cymdeithasol wyneb yn wyneb wedi digwydd yn achlysurol dros y flwyddyn flaenorol yn unol â chanllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd Brynbuga wedi gwneud defnydd da o babell i gynnal ymweliadau y tu allan. Roedd gweithwyr teulu o'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai yn ôl ar y safle yn darparu gwasanaethau i garcharorion a phlant.
- 1.29 Roedd defnyddio galwadau fideo diogel (gweler Atodiad II: Rhestr termau) ym Mhrescoed yn dda iawn. Fodd bynnag, roedd y defnydd ym Mrynbuga yn llawer is – yn ein harolwg, dim ond 8% o'r carcharorion ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r cyfleuster galwadau fideo. Cwynodd llawer o garcharorion ym Mrynbuga am fynediad cyfyngedig at ffônau carchar.
- 1.30 Roedd dadansoddiadau cynhwysfawr o anghenion y boblogaeth ym mhob carchar wedi'u cwblhau'n ddiweddar a'u defnyddio fel sail i strategaeth benodol ar gyfer lleihau aildroseddu.
- 1.31 Roedd gan bron pob carcharor adroddiad ar y system asesu troseddwy'r yn amlinellu eu risgiau a'u hanghenion, yn ogystal â chynllun dedfrydu, ac roedd bron pob un wedi cael ei adolygu yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd safon y cynlluniau dedfrydu a archwiliwyd gennym yn dda.
- 1.32 Roedd y cynnydd a wnaeth carcharorion yn erbyn eu cynlluniau dedfryd yn weddol dda ym Mrynbuga, ond roedd cwtogi rhaglenni ymddygiad troseddol yn ystod cyfyngiadau'r gyfundrefn wedi cael effaith mewn rhai achosion. I'r gwrthwyneb, roedd rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) wedi cael ei gynnal ym Mhrescoed, felly roedd y cynnydd yn dda i'r rhan fwyaf o garcharorion yno.
- 1.33 Nid oedd lefelau staffio rheolwyr troseddwy'r y Gwasanaeth Prawf yn ddigonol ym Mrynbuga. Roedd cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio'n andwyol ar y cysylltiad rhwng rheolwyr troseddwy'r carchardai a phrawf a charcharorion yn y ddau garchar, ond roedd yr effaith yn llai difrifol ym Mhrescoed, lle roedd llawer o garcharorion yn dal i fod oddi ar y

safle ar ROTL. Roedd clinigau'r Uned Rheoli Troseddwyr ym Mhrescoed, a gynhaliwyd ddwy noson yr wythnos ac ar benwythnosau, yn cael eu gwerthfawrogi.

- 1.34 Roedd trefniadau amddiffyn y cyhoedd yn cael eu rheoli'n dda. Ym Brynbuga, roedd y tîm rheoli risg rhyngadrannol (IRMT), a oedd yn cyfarfod fel mater o drefn, yn ystyried yr holl bobl a oedd yn cyrraedd o'r newydd a'r rhai oedd i fod i gael eu rhyddhau, ond ni chafodd Prescoed gyfarfod o'r Tîm Rheoli Risg Integredig, a oedd yn golygu bod bwlch o ran goruchwyllo. Fodd bynnag, yr oeddem yn hyderus bod rheoli risg a chynllunio rhyddhau ar y cyd gyda rheolwyr troseddwyr cymunedol yn dal i gael eu trin yn effeithiol.
- 1.35 Roedd ansawdd cynlluniau rheoli risg carcharorion yn dda iawn ar y cyfan yn y ddau sefydliad. Gweithiodd rheolwyr troseddwyr yn y carchardai a'r gymuned yn dda gyda'i gilydd i reoli'r rhai a oedd yn destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth. Roedd cyfyngiadau cyswllt plant a monitro dros y ffôn at ddibenion amddiffyn y cyhoedd yn cael eu rheoli'n dda.
- 1.36 Roedd y ddarpariaeth ROTL ar gyfer carcharorion ym Mhrescoed yn gwneud gwaith hanfodol yn y gyfundrefn drwyddi draw a thrwy gydol y cyfyngiadau cymunedol, a oedd yn dda. Roedd cyfleoedd ehangach ar gyfer ROTL wedi cael eu cyflwyno cyn gynted ag yr oedd y cyfyngiadau'n caniatáu ac, adeg ein harolwg, roedd dros 60% o garcharorion ar ryw fath o ROTL.
- 1.37 Roedd gohirio rhaglenni ymddygiad achrededig ym mis Mawrth 2020 yn golygu bod rhai carcharorion yn gadael Brynbuga heb i'w hanghenion triniaeth gael sylw. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol eu bod wedi aildechrau ym mis Medi 2020, a bod mynediad wedi cael ei flaenoriaethu'n briodol. Roedd cynlluniau i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion nad oeddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer rhaglenni wedi cael eu gohirio yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- 1.38 Roedd Brynbuga wedi cael ei ddynodi'n garchar hyfforddi ac ailsefydlu ac erbyn hyn roedd ganddo ddarpariaeth cwmni adsefydlu cymunedol. Cafodd carcharorion ar draws y ddau safle gefnogaeth dda i wneud trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau, gan gynnwys cymorth i fynd i'r afael â'u hanghenion llety.

## **Prif bryderon ac argymhellion**

- 1.39 Mae'r prif bryderon ac argymhellion yn nodi'r materion pwysicaf er mwyn gwella canlyniadau i garcharorion, a'u diben yw helpu sefydliadau i flaenoriaethu a mynd i'r afael â'r gwendidau mwyaf arwyddocaol yn nhriniaeth ac amodau carcharorion.
- 1.40 Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd meysydd a oedd yn brif bryder i ni ac rydym wedi gwneud nifer fach o argymhellion i'r carchar roi sylw iddynt.

- 1.41 Prif bryder: Roedd polisi dim goddefgarwch Prescoed yn dychwelyd carcharorion i amodau caeedig heb roi ystyriaeth briodol i unrhyw fesurau lliniaru, yr effaith gyffredinol ar y carcharor ac a oedd y penderfyniad yn ymateb cymesur. Roedd nifer yr ymatebion i amodau caeedig yn uwch nag yn y rhan fwyaf o garchardai agored eraill.

**Argymhelliad Dim ond yn dilyn adolygiad priodol o ailgategoreiddio sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r holl amgylchiadau y dylid dychwelyd carcharorion i amodau caeedig, ac sy'n sicrhau bod y penderfyniad bob amser yn ymateb cymesur.**  
(I'r llywodraethwr)

- 1.42 Prif bryder: Roedd fferyllwyr arweiniol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi rhoi'r gorau i ddarparu mewnbwn rheolaidd ym Mrynbuga a Phrescoed. Roedd hyn wedi arwain at: fethiant i sicrhau bod meddyginiaethau'n briodol a bod cleifion yn gwybod sut i'w cymryd; staff annigonol mewn fferyllfeydd i sicrhau bod y cyflenwad meddyginiaethau'n ddiogel; ystod gyfyngedig o feddyginiaethau i gleifion eu prynu i drin mân anhwylderau neu nad oedd angen i feddyg eu rhagnodi; a bylchau o ran goruchwylio prosesau a gweithdrefnau gwasanaethau fferyllol.

**Argymhelliad Dylid cynnwys mwy o fferyllwyr i oruchwylio safonau proffesiynol, protocolau a gweithdrefnau'r gwasanaeth i sicrhau bod y cyflenwad o feddyginiaethau'n ddiogel.**  
(I'r llywodraethwr)



## Arferion cadarnhaol nodedig

- 1.43 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.
- 1.44 Daeth yr arolygwyr o hyd i bedair enghraifft o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn.
- 1.45 Yn dilyn proses asesu a ddechreuodd cyn y pandemig, roedd Brynbuga wedi ennill achrediad Amgylcheddau Galluogi yn ddiweddar, a ddyfarnwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion i sefydliadau a sefydliadau sy'n cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer creu amgylchedd cadarnhaol a pherthnasoedd iach. (Gweler paragraff 3.5.)
- 1.46 Roedd y trefniadau gofal cymdeithasol yn rhagorol. Roedd staff gofal cymdeithasol integredig wedi'u hymgorffori yn y carchar ac roeddent yn llywio datblygiadau yn y gwasanaeth i ddiwallu anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio. (Gweler paragraff 3.67.)
- 1.47 Yn ystod cyfyngiadau'r pandemig, roedd Prescoed wedi gwneud defnydd effeithiol iawn o'i adnoddau carchar a'i gysylltiadau â chyflogwyr i gynnal lefel uchel o gyflogaeth ymysg carcharorion. Mae hyn wedi arwain at gyflogi 45% o garcharorion mewn manau, megis y fferm, gardd y farchnad a'r uned rheoli gwastraff. Yn ogystal, cafodd llawer o garcharorion eu lleoli gyda chyflogwyr y tu allan i'r carchar. (Gweler paragraff 4.21.)
- 1.48 Cynhaliodd yr Uned Troseddwyd yn Prescoed glinigau fin nos a phenwythnosau, gan roi cyfle i garcharorion weld rheolwyr troseddwyd y tu allan i oriau gwaith, pan fyddant yn dychwelyd o'r gwaith. (Gweler paragraff 5.16.)

## Section 2 Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.**

### Dyddiau cynnar yn y ddalfa

Deilliannau disgwylidig: Mae carcharorion sy'n trosglwyddo i'r carchar ac oddi yno yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae carcharorion sy'n cyrraedd yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae risgiau'n cael eu nodi a rhoddir sylw iddynt yn y dderbynfa. Cefnogir carcharorion ar eu noson gyntaf. Mae'r cynefino'n gynhwysfawr.

- 2.1 Ar gyfartaledd, roedd rhwng pedwar a chwech o garcharorion yn cyrraedd pob carchar mewn wythnos, ac roedd gan y rhan fwyaf ohonynt deithiau byr. Fodd bynnag, teithiodd rhai carcharorion tua phedair awr o Ogledd Cymru. Dywedodd y carcharorion y buom ni'n siarad â nhw eu bod wedi cael brechdanau a dŵr ar gyfer y daith ac nad oedd gefynnau'n cael eu defnyddio pan wnaethon nhw adael y cerbyd hebrwng.
- 2.2 Roedd y derbynfeydd yn y ddau garchar yn fach ond yn weithredol. Roedd y dderbynfa ym Mrynbuga yn flêr ac roedd angen rhywfaint o waith atgyweirio arni, ac ym Mhrescoed roedd hi'n lân ac yn groesawgar.
- 2.3 Yn ein harolwg, dywedodd 92% o garcharorion Brynbuga a 95% ym Mhrescoed eu bod wedi cael eu trin yn dda iawn neu'n eithaf da yn y dderbynfa. Roedd y prosesau'n gyflym ac roedd y staff yn gyfeillgar ac yn effeithlon. Roedd gweithwyr cyfoedion yn ardaloedd derbyn y ddau garchar yn rhoi cefnogaeth gynnar dda i bobl newydd sy'n cyrraedd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ym Mhrescoed, lle gallai carcharorion fod yn cyrraedd amodau agored am y tro cyntaf.
- 2.4 Nid oedd y naill safle na'r llall yn diosg-chwilio y rhai a oedd yn cyrraedd o'r newydd fel mater o drefn – roedd carcharorion ym Mrynbuga wedi cael eu chwilio drwy deimlo. Dim ond os oedd gwybodaeth benodol wedi dod i law yr oedd diosg-chwilio yn digwydd ym Mhrescoed wrth i garcharorion gael eu derbyn.
- 2.5 Cafodd pob carcharor newydd gyfweliad noson gyntaf yn breifat, a oedd yn canolbwyntio'n dda ar eu risgiau a'u gwendidau. Roedd y celloedd yn y llety noson gyntaf ym Mrynbuga ar adain C yn lân ac wedi'u cyfarparu'n dda. Ym Mhrescoed, roedd gan yr adain gynefino weithwyr cefnogi cyfoedion da yn byw ar yr uned ac roedd aelod dynodedig o staff ar gael. Yn ystod ein harolygiad, fodd bynnag, roedd yr adain gynefino yn llawn ac roedd newydd-ddyfodiaid mewn mannau eraill yn y carchar. Dywedodd y newydd-ddyfodiaid roedden ni wedi siarad â nhw eu bod yn hapus gyda lle roedden nhw wedi cael eu lleoli

a'u bod yn gwybod sut i gael gafael ar staff i gael cymorth os oedd angen.

- 2.6 Nid oedd galwadau ffôn am ddim ar gael fel mater o drefn i garcharorion oedd newydd gyrraedd yn y naill garchar na'r llall. Ym Mhrescoed, roedd cyfrifon ffôn carcharorion yn cael eu gweithredu yn brydlon, a oedd yn eu galluogi i ddefnyddio'r ffôn. Ym Mrynbuga, nid oedd y staff yn deall y broses yn iawn, a dywedodd rhai carcharorion, er enghraifft, nad oeddent yn cael gwneud galwad ffôn ar eu noson gyntaf.
- 2.7 Gallai carcharorion oedd newydd gyrraedd Brynbuga brynu pecyn bwyd wrth gyrraedd ond roedd hi'n anarferol nad oedd Prescoed yn cynnig pecynnau bwyd wrth gyrraedd. (Gweler paragraff 3.19.)
- 2.8 Yn ystod y pandemig, roedd yr amserlen gynefino yn y ddau garchar wedi byrhau ac nid oedd unrhyw fonitro i wirio bod yr holl garcharorion wedi cael eu cynefino. Fodd bynnag, roedd gweithwyr cyfoedion yn y ddau garchar yn cefnogi'r broses gynefino'n dda. Ym Mrynbuga, roedd swyddogion cynefino'n darparu'r wybodaeth angenrheidiol ac roedd modd eu hadnabod yn hawdd ar draws y carchar. Ym Mhrescoed, roedd yr ystafelloedd cynefino'n arbennig o ddefnyddiol ac yn gwneud yn siŵr bod newydd-ddyfodiaid yn cwrdd â staff o adrannau perthnasol ac yn mynd ar daith gynhwysfawr o amgylch y carchar. Roedd y swyddogion yn bwriadu ailgyflwyno'r 'pasbort' cynefino a oedd ar waith yn ystod yr arolygiad blaenorol i fonitro'r broses gynefino. Ym Mrynbuga, roedd rheolwyr wedi cydnabod nad oedd yr holl staff yn gyfarwydd â'r amserlen gynefino ac wedi adnabod angen am hyfforddiant staff.

## Argymhelliad

- 2.9 **Dylai pawb sy'n cyrraedd o'r newydd allu gwneud galwad ffôn ar eu noson gyntaf.**

## Rheoli ymddygiad

Deilliannau disgwylidig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, ysgogol sy'n cael ei drefnu'n dda lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.

## Annog ymddygiad cadarnhaol

- 2.10 Roedd canfyddiadau carcharorion o ddiogelwch yn eithaf tebyg i'r arolygiad blaenorol – yn ein harolwg, dywedodd 25% o garcharorion ym Mrynbuga eu bod wedi teimlo'n anniogel yn ystod eu cyfnod yn y carchar a theimlai 7% nad oeddent yn ddiogel adeg yr arolwg. Roedd y ffigurau ar gyfer Prescoed yn 13% a 4% yn y drefn honno.
- 2.11 Roedd y lefelau o drais a gofnodwyd yn y ddau safle yn isel iawn ac ni chafwyd unrhyw ymosodiadau wedi'u cofnodi yn erbyn carcharorion na

staff ym Mhrescoed yn y 12 mis cyn yr arolygiad. Ym Mrynbuga, cofnodwyd chwe ymosodiad ar garcharorion yn ystod y 12 mis blaenorol a thri ar staff, ac nid oedd yr un o'r rhain yn ddifrifol. Roedd hyn yn is nag yn ein harolwg blaenorol.

- 2.12 Fodd bynnag, dywedodd staff a charcharorion ym Mhrescoed wrthym fod mwy o densiwn wedi bod rhwng carcharorion yn ystod cyfyngiadau'r pandemig. Cafodd y canfyddiad hwn ei adlewyrchu yn ein harolwg: Dywedodd 38% o'r carcharorion a ymatebodd eu bod wedi cael eu bygwth gan garcharorion eraill o'i gymharu â 9% yn ystod ein hymweliad diwethaf, a dywedodd 37% eu bod wedi dioddef ymosodiad corfforol o'i gymharu ag 1% y tro diwethaf.
- 2.13 Defnyddiwyd cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP) (gweler Atodiad II: Geirfa) yn effeithiol ym Mrynbuga i herio'r rhai sy'n cyflawni trais a chefnogi eu dioddefwyr. Agorwyd y cynlluniau yn dilyn ymchwiliad pryd bynnag yr oedd adroddiad o drais neu fwlio wedi digwydd ac fe'u rheolwyd drwy'r cyfarfod ymyriadau diogelwch wythnosol (SIM). Roedd ansawdd cynlluniau CSIP yn dda ac roedd y camau cychwynnol yn ymddangos yn effeithiol o ran lleihau trais, ond roedd diffyg cefnogaeth barhaus ar ôl i'r camau cychwynnol gael eu cwblhau.
- 2.14 Ym Mhrescoed, roedd polisi dim goddefgarwch ar waith, a oedd yn golygu bod carcharor yn cael ei ddychwelyd i amodau caeedig os oedd ei ymddygiad yn cael ei alw'n dreisgar neu'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau neu ffôn symudol. Gallai'r polisi hwn, a ddefnyddiwyd heb ystyried amgylchiadau penodol trosedd honedig bob amser, unrhyw fesurau lliniaru posibl neu'r effaith gyffredinol ar yr unigolyn, arwain at ganlyniadau anghymesur neu gosbol.
- 2.15 Roedd y polisi wedi arwain at lawer o garcharorion (yn gymesur fwy na'r rhan fwyaf o garchardai agored eraill) yn cael eu dychwelyd i amodau caeedig gan Brescoed. Yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad roedd tua 81 o ddynion wedi cael eu hail-gategoreiddio a'u dychwelyd. (Gweler prif bryder ac argymhelliad 1.41.)
- 2.16 Roedd polisi gwobrwyo a chosbi ar waith yn y ddau safle, ond yn ddiweddar roedd arweinwyr Brynbuga wedi penderfynu gwobrwyo pob carcharor am eu hymddygiad da ac am eu bod yn derbyn y cyfyngiadau ar y gyfundrefn yn ystod pandemig COVID-19. Roedd hyn wedi cael derbyniad da gan garcharorion a oedd yn gwerthfawrogi'r cynnydd mewn arian gwario ac eiddo yn y celloedd y gallent gael gafael arnynt.
- 2.17 Ym Mhrescoed, roedd bron pob carcharor hefyd yn cael y lefel uchaf o wobrau. Fodd bynnag, dywedodd carcharorion wrthym nad oedd y gwahaniaeth rhwng y gwahanol lefelau yn gwneud llawer i annog ymddygiad cadarnhaol ac mai'r prif gymhelliant oedd y cyfle i ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL) i weld y teulu a gweithio yn y gymuned. Roedd y cyfleoedd ROTL da a'r berthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion yn annog carcharorion i ymgysylltu â'r ethos adsefydlu yn y carchar ac roedd nifer isel iawn o garcharorion wedi dianc.

## Dyfarniadau

- 2.18 Roedd nifer y dyfarniadau yn y ddau safle yn isel. Roedd y rhan fwyaf o'r cyhuddiadau ym Mrynbuga yn ymwneud â meddu ar eitemau heb eu hawdurdodi neu ddefnyddio geiriau neu ymddygiad sarhaus neu ddifrifol. Roedd y cyhuddiadau ym Mhrescoed yn fwy cymhleth – roedd nifer yn ymwneud â charcharorion yn cael eu canfod ar adain arall a thorri cyfyngiadau COVID-19.
- 2.19 Roedd y sampl o ddyfarniadau a welsom yn dangos lefel dda o ymchwiliad, ac roedd y sancsiynau'n gymesur â'r drosedd a gyflawnwyd. Fodd bynnag, ym Mhrescoed, roedd carcharorion a oedd yn dychwelyd i amodau caeedig yn annhebygol o fod wedi cael dyfarniad cyn iddynt gael eu symud, heb iddynt gael cyfle i gyflwyno amddiffyniad i'r cyhuddiad a arweiniodd at eu hail-gategoreiddio disymwth.
- 2.20 Roedd y goruchwyllo'n dda iawn – cynhaliwyd cyfarfod safoni chwarterol ac roedd y llywodraethwr yn cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd misol. Roedd y broses sicrhau ansawdd yn herio anghysonderau mewn dyfarniadau, yn sicrhau nad oeddent yn rhy gosbol ac yn rhoi adborth i ddyfarnwyr unigol yn effeithiol. Nid oedd ôl-groniad o ddyfarniadau heb eu cwblhau, a gwelsom ychydig iawn o achosion y gellid bod wedi ymdrin â hwy ar lefel is.

## Defnyddio Grym

- 2.21 Roedd yr achosion o ddefnyddio grym yn brin ac yn is nag yn yr arolygiad blaenorol. Bu naw digwyddiad heb eu cynllunio ym Mrynbuga yn ymwneud â grym yn y 12 mis cyn yr arolygiad ac nid oedd yr un ym Mhrescoed. Roedd digwyddiadau a oedd wedi'u trefnu ym Mhrescoed wedi digwydd ar 17 achlysur ac yn bennaf roedd yn golygu rhoi cyffion ar garcharorion i'w symud ac atal y risg o ddianc cyn iddynt ddychwelyd i amodau caeedig.
- 2.22 Roedd goruchwyllo'r defnydd o rym yn dda, gyda phob digwyddiad yn cael ei adolygu gan uwch arweinydd, a chafodd unrhyw wersi a ddysgwyd eu dwyn i'r cyfarfod chwarterol ar ddefnyddio grym i'w rhannu â staff. Roedd y digwyddiadau a welsom yn dangos dad-egoli da cyn ac yn ystod digwyddiadau, ac roedd y staff yn defnyddio'r grym lleiaf angenrheidiol ar gyfer y sefyllfa. Bu'r staff yn cynnal ôl-drafodaeth gyda phob carcharor a gafodd ei atal yn gorfforol y diwrnod canlynol.
- 2.23 Rhoddwyd y chwistrell cemegol analluogi PAVA1 i staff ym Mrynbuga ac i staff ar ddyletswydd yn ystod y nos ym Mhrescoed ond nid oedd erioed wedi cael ei dynnu allan na'i ddefnyddio yn y naill safle na'r llall.

## Gwahanu

- 2.24 Nid oedd gan y naill safle na'r llall uned wahanu ac ym Mrynbuga cafodd unrhyw garcharor yr oedd angen ei wahanu ei drosglwyddo o'r carchar. Ym Mhrescoed, roedd carcharorion a oedd yn cael eu dychwelyd i amodau caeedig yn cael eu cadw mewn ystafell gadw yn y

dderbynfafa a oedd yn gell wedi'i haddasu. Roedd gan yr ystafell wely a thoiled heb sgrin, ond dim seddi.

## Diogelwch

Deilliannau disgwylidig: Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal drwy roi sylw i faterion ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys gwybodaeth diogelwch effeithiol a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn cael eu diogelu rhag dod i gysylltiad â defnyddio sylweddau ac mae mesurau effeithiol ar waith i leihau'r cyflenwad cyffuriau.

- 2.25 Roedd anghenion diogelwch y ddau safle yn wahanol iawn ac fe'u hadlewyrchwyd yn strwythur y tîm rheoli, a oedd yn cynnwys dau dîm diogelwch ac arweinwyr ar wahân. Roedd hyn yn gweithio'n dda gan gynhyrchu systemau a oedd, yn ein barn ni, yn gymesur â lefelau'r risg a berir gan y poblogaethau yn y ddau safle.
- 2.26 Roedd gwybodaeth am ddiogelwch yn cael ei rheoli'n dda yn y ddau safle; cafodd gwybodaeth a gafwyd o'r tu mewn i'r carchar a gan asiantaethau eraill fel yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf ei dadansoddi a'i defnyddio i gynhyrchu asesiad tactegol lleol ar gyfer pob safle. Roedd yr asesiadau hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr a oedd yn helpu staff ac arweinwyr i reoli'r poblogaethau carcharorion gwahanol a'r camau gweithredu a helpodd y ddau safle i gyflawni'r amcanion diogelwch a osodwyd bob mis.
- 2.27 Dim ond yn ddiweddar yr oedd Brynbuga wedi aildechrau profion cyffuriau gorfodol ar ôl ei ohirio fel rhan o gyfyngiadau'r pandemig cenedlaethol ac roedd yn dal i gael nifer isel iawn o brofion positif. Yn gyffredinol, roedd yr ychydig a oedd yn bositif yn gysylltiedig â chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Roedd y rhai a gafodd brawf positif bob amser yn cael eu cyfeirio at Dyfodol, y darparwr gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, i gael cymorth.
- 2.28 Roedd profion ar gyfer sylweddau anghyfreithlon wedi parhau ym Mhrescoed drwy gydol cyfyngiadau'r pandemig gan fod profion negyddol parhaus yn amod ar gyfer ROTL. Yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad, cynhaliwyd 272 o brofion, ac roedd 45 ohonynt yn bositif am sylweddau anghyfreithlon. Cafodd carcharorion a gafodd brawf positif eu dychwelyd ar unwaith i amodau caeedig o dan bolisi 'dim goddefgarwch' y carchar heb gael eu cyfeirio at y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, a allai fod yn ymateb anghymesur gan gadael y carcharorion hyn heb y cymorth angenrheidiol (gweler paragraff 2.14 a phryder allweddol ac argymhelliad 1.41).
- 2.29 Roedd yr holl chwilio ym Mhrescoed yn seiliedig ar wybodaeth, ond ym Mrynbuga gwelsom fod diosg-chwilio rheolaidd wedi digwydd yn dilyn ymweliadau, lle'r oedd 10% o garcharorion yn cael eu chwilio ar hap, er bod y defnydd anghyfreithlon o gyffuriau yn isel iawn.

## Argymhelliad

- 2.30 **Dim ond ar sail gwybodaeth neu amheuaeth benodol y dylid diosg-chwilio carcharorion.** (Argymhelliad 1.29 wedi'i ailddatgan)

## Diogelu

Deilliannau disgwylidig: Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael eu nodi ac yn cael gofal a chymorth priodol. Mae pob oedolyn agored i niwed yn cael ei adnabod, ei amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod ac yn cael gofal a chymorth effeithiol.

## Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

- 2.31 Bu un hunanladdiad ym Mrynbuga ond dim un ym Mhrescoed ers yr arolygiad blaenorol yn 2017. Roedd y lefelau hunan-niweidio a gofnodwyd yn dal yn isel iawn, ac ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau ym Mhrescoed a dim ond 16 ym Mrynbuga yn ystod y 12 mis, cyn ein harolygiad. Roedd hyn yn sylweddol is nag mewn carchardai tebyg.
- 2.32 Roedd y polisi lleol ar hunanladdiad a hunan-niweidio yn canolbwyntio'n glir ar adnabod risgiau yn nyddiau cynnar carcharor yn y carchar, ac roedd amllder y cyfarfodydd chwarterol ar y cyd ar gyfer cystodaeth mwy diogel yn ymateb cymesur i lefel yr angen. Fodd bynnag, nid oedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio digon ar Brescoed ac nid oedd camau a nodwyd mewn ymchwiliad i ddigwyddiad hunan-niweidio difrifol wedi cael eu rhoi ar waith ym Mrynbuga. Nid oedd unrhyw gynllun gweithredu trosfwaol ar gyfer gwelliant parhaus ar gyfer y naill garchar na'r llall.
- 2.33 Gwelsom y rheolwyr yn trosglwyddo dros nos ym Mrynbuga a gwelsom fod gwybodaeth briodol am risg yn cael ei thrafod. Roedd staff nos yn hyderus ynghylch beth i'w wneud mewn argyfwng ond dywedodd rhai staff nos wrthym eu bod wedi gadael eu cyllell rhwymyn yn eu locer.
- 2.34 Nid oedd yna unrhyw asesiad agored, dogfennau gofal yn y ddalfa na dogfennau rheoli achosion gwaith tîm (ACT) ar gyfer carcharorion mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio yn y naill garchar na'r llall yn ystod yr arolygiad. Roedd safon y dogfennau ACCT caeedig roedden ni wedi edrych arnyn nhw'n dda ar y cyfan, roedd yr adolygiadau'n amlddisgyblaethol ac roedd y cynlluniau gofal wedi'u teilwra i anghenion y carcharorion. Fodd bynnag, o ystyried y nifer fach o ddogfennau ACCT a agorwyd ym Mrynbuga, siomedig oedd gweld nad oedd yr adolygiadau achos cyntaf bob amser yn amserol.
- 2.35 Er hynny, roedd carcharorion a oedd mewn argyfwng yn cael cefnogaeth dda, a dywedodd 77% o'r carcharorion yn ein harolwg ym Mrynbuga a oedd wedi bod ar ddogfen ACCT agored, eu bod wedi cael gofal gan staff. Roedd y cyfarfod ymyriadau diogelwch wythnosol hefyd



yn canolbwyntio'n briodol ar garcharorion a oedd ar ddogfen ACCT ac yn darparu cymorth da, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth am risg ar gyfer carcharor a gafodd ei drosglwyddo i garchar arall er mwyn iddynt allu cael gofal parhaus.

- 2.36 Roedd grŵp o Wrandawyr sydd wedi hen ennill ei blwyf (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i ddarparu cefnogaeth emosiynol gyfrinachol i gyd-garcharorion) yn diwallu anghenion y ddau garchar ac roedd mynediad at Wrandawyr yn dda. Er bod y rhan fwyaf o'r cysylltiadau'n rhai 'stopio a sgwrsio' ad hoc, roedd ystafell addas i Wrandawyr ym Mrynbuga, ac roedd yr ardd llesiant ym Mhrescoed yn groesawgar.



Gardd llesiant ym Mhrescoed

## Argymhelliad

- 2.37 **Dylai cyfarfodydd rheoli diogelwch gael eu hintegreiddio'n llawn i'r ddau garchar a dylai fod ganddynt gynllun gweithredu effeithiol i sbarduno gwelliant parhaus.**

## Amddiffyn oedolion mewn perygl (gweler Atodiad II: Geirfa)

- 2.38 Roedd trefniadau diogelu wedi cael eu datblygu ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y polisi'n gynhwysfawr, a chyfarfu panel diogelu'r carchar, dan gadeiryddiaeth y dirprwy lywodraethwr, bob chwarter. Er na chafwyd unrhyw achos o atgyfeirio carcharorion ers 2019, roedd cysylltiadau priodol ag awdurdodau diogelu lleol yn cael eu cynnal.
- 2.39 Roedd hyfforddiant staff wedi cael ei ohirio dros dro yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn

ymwybodol o'r broses atgyfeirio neu'n gwybod â phwy i gysylltu os oedd ganddynt bryderon am garcharor. Roedd cynlluniau ar y gweill ar gyfer hyfforddi staff yn y dyfodol. Gallai carcharorion hefyd roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu drwy lenwi dogfen pryderon cymunedol, a anfonwyd at y tîm cystodaeth mwy diogel.

## Section 3 Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.**

### Perthynas rhwng staff a charcharorion

Deilliannau disgwylidig: Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch gan staff drwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa ac fe'u hanogir i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain.

- 3.1 Parhaodd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn dda yn y ddau safle. Drwy gydol yr arolygiad gwelsom rhyngweithio cyfeillgar a chymwynasgar ac roedd lefel y wybodaeth a oedd gan y staff am y rhai yn eu gofal wedi creu argraff arnom. Ym Mhrescoed, er enghraifft, roedd y staff goruchwyllo, gan gynnwys yr arlwywyr, yn gwybod enw cyntaf bron pob carcharor ac yn mynd allan o'u ffordd i groesawu newydd-ddyfodiaid. Yn yr un modd, ym Mrynbuga, roedd staff y gwasanaeth bwyd yn gyfeillgar ac yn effeithlon a gwelsom staff goruchwyllo adain yn rhyngweithio â charcharorion yn rheolaidd.
- 3.2 Yn ein harolwg yn y ddau safle, dywedodd y rhan fwyaf o garcharorion eu bod yn cael eu trin yn barchus (80% ym Mrynbuga ac 88% ym Mhrescoed) a bod yno staff y gallent droi atynt pe bai ganddynt broblem (92% ym Mrynbuga a 90% ym Mhrescoed).
- 3.3 Roedd lefel dda o gefnogaeth gan gymheiriaid ac roedd gan bob uned breswyl gynrychiolwyr a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd cyngor y carcharorion er mwyn cyflwyno safbwyntiau carcharorion a chodi pryderon. Roedd y broses 'gofyn i'r llywodraethwr', a oedd yn caniatáu i garcharorion unigol gyflwyno cwestiynau, yn fenter gadarnhaol. Er bod cyfarfodydd ffurfiol y cyngor wedi cael eu gohirio ar adegau yn ystod y pandemig oherwydd achosion o feirws, roedd y cynrychiolwyr yn dal i gael cyfle i gyflwyno eu pryderon a'u hawgrymiadau i reolwyr ar ran eu hunedau preswyl.
- 3.4 Dyrannwyd gweithiwr allweddol i bob carcharor ym Mrynbuga (gweler Atodiad II: Geirfa). Roedd nodiadau achosion electronig yn dangos bod gan weithwyr allweddol lefel dda o gyswllt â charcharorion a bod y rhan fwyaf o'r cofnodion yn cael eu gwneud yn rheolaidd a'u bod yn rhoi darlun clir o'r materion sy'n berthnasol i'r carcharor. Roedd Prescoed yn safle mabwysiadu cynnar ar gyfer y model rheoli troseddwyd yn y ddalfa (gweler Atodiad II: Geirfa) ac roedd gan bob carcharor swyddog penodedig a oedd yn gyfrifol am fonitro a chofnodi digwyddiadau allweddol. Serch hynny, roedd nodiadau achos, er nad oeddent wedi'u cwblhau mor aml ag ym Mrynbuga, yn gynhwysfawr. Roedd y carcharorion roedden ni wedi siarad â nhw yn gwybod pwy oedd eu swyddog penodedig ac roedd y rhan fwyaf yn canmol y cymorth roedden nhw wedi'i gael gan ddweud y bydden nhw'n gallu mynd at

staff gyda phroblemau neu geisiadau ac y bydden nhw'n cael help ar eu cyfer.

- 3.5 Yn dilyn proses asesu a ddechreuodd cyn y pandemig, roedd Brynbuga wedi ennill achrediad Amgylcheddau Galluogi, a ddyfarnwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion i lefydd sy'n cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer creu amgylchedd cadarnhaol a pherthnasoedd iach.

## Bywyd bob dydd

Deilliannau disgwylidig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallent wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

## Amodau byw

- 3.6 Yn ein harolwg, roedd carcharorion yn y ddau safle yn gadarnhaol iawn am eu hamodau byw, gan gynnwys mynediad at gawodydd, dillad a dillad gwely glân a glanhau a diheintio deunyddiau. Roedd carcharorion Brynbuga hefyd yn gadarnhaol am yr ymatebion i ganu cloch celloedd – roedd 67% yn dweud eu bod wedi cael eu hateb o fewn pum munud.
- 3.7 Roedd yr ardaloedd allanol yn drawiadol yn y ddau garchar – roedd gerddi a manau cyffredin wedi'u cadw'n dda. Roedd yr ardaloedd cymunedol mewn unedau preswyl yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd amserlenni glanhau rheolaidd yn sicrhau bod ardaloedd yn cael eu diheintio'n rheolaidd er mwyn lleihau'r risg barhaus o COVID-19.





**Gardd ym Mrynbuga**

- 3.8 Roedd y celloedd yn y tair prif adain ym Mrynbuga yn lân ac yn gyffredinol mewn cyflwr da ac roedd y carcharorion yn gallu lliniaru cyfyngiadau eu hamodau byw gyda'u heiddo eu hunain. Fodd bynnag, roedd gormod o gelloedd yn dal i fod yn orlawn ac roedd nifer o gelloedd a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer deiliadaeth sengl yn cynnwys dau berson, a oedd yn arwain at amodau cyfyng, lle roedd y toiled yn y celloedd yn cael ei rannu. Er bod hyn yn cael ei wrthbwysio fel arfer gan drefn gymharol agored y carchar, roedd y cyfyngiadau a osodwyd oherwydd y pandemig yn golygu bod carcharorion yn rheolaidd yn treulio tua 20 awr y dydd yn yr amodau hyn. Gwaethygyd teimlad o glawstroffobia yn y celloedd gan y golau naturiol cyfyngedig a oedd ar gael a diffyg golygfa o'r tu allan oherwydd bod y ffenestri'n fach ac yn uchel.



**Cell ddwbl ym Mrynbuga**

- 3.9 Roedd y llety ym Mhrescoed yn cynnwys cymysgedd o ystafelloedd dwbl ac ystafelloedd sengl yn yr unedau o fewn ffin y safle. Roedd dau gyn-luestfa staff y tu allan i'r giât yn lletya hyd at wyth carcharor a oedd yn gweithio y tu allan i'r carchar ac fel arfer roeddent yn agosáu at gael eu rhyddhau. Roedden nhw'n byw mewn ffordd gymharol hunangynhaliol a oedd wedi'i chynllunio i'w helpu i bontio'n ôl i'r gymuned. Roedd Uned Lester, adeilad llety dros dro 40 gwely, i fod i gael ei ddymchwel ym mis Awst 2021. Byddai capasiti'r carchar yn cael ei gynnal drwy ddefnyddio llety pod dros dro.





**Uned Lester ym Mhrescoed**



**Podiau llety ym Mhrescoed**

- 3.10 Dywedodd carcharorion Prescoed wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r amodau yno. Dywedodd y rheini mewn ystafelloedd a rennir wrthym y byddent yn cael llety sengl yn y pen draw a bod y mynediad cymharol rydd i'r tiroedd yn digolledu am orfod rhannu.



- 3.11 Gallai pob carcharor gael cawod o leiaf bob dydd. Roedd y cawodydd ar draws y ddau safle yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu hadnewyddu i safon dda. Roedd y sgrinio'n effeithiol ac roedd digon o le i gadw dillad yn sych tra oedd y cawodydd yn cael eu defnyddio. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn gwisgo eu dillad eu hunain. Roedd cyfleusterau golchi dillad a chyfnewid cit ar gyfer y rheini a oedd eu hangen yn dda yn y ddau safle.
- 3.12 Roedd gan y ddau safle bolisi gwedduster lle'r oedd llety'n cael ei archwilio'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei ddodrefnu, ei lanhau a'i gynnal yn ddigonol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o graffiti a chafodd y polisi ar arddangosion tramgwyddus ei orfodi a'i ddilyn yn llym.

### Argymhelliad

- 3.13 **Ni ddylid cadw carcharorion mewn celloedd aml-breswyliaeth sy'n rhy fach iddynt gael digon o le personol, dodrefn a phreifatrwydd.**

### Gwasanaethau preswyl

- 3.14 Roedd y gegin fawr a chyda digon o gyfarpar ym Mhrescoed yn paratoi bwyd ar gyfer carcharorion yn y ddau safle. Roedd prydau bwyd ar gyfer Brynbuga yn cael eu cludo ar y daith mewn lori. Roedd cegin fach ym Mrynbuga a oedd yn cynnwys sosban ffrio dwfn a dau bopty mawr lle'r oedd prydau'n cael eu coginio'n syth cyn y gwasanaeth bwyd. Profwyd tymheredd yr holl fwyd cyn iddo gael ei weini ac roedd y cofnodi'n dda.
- 3.15 Roedd y gegin yn lân, yn llachar ac roedd yr offer mewn cyflwr da. Roedd yn cyflogi hyd at 24 o garcharorion ar unrhyw adeg. Roedd yr holl garcharorion a oedd yn cael eu cyflogi yno yn cael hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol, ond ni allent ennill cymwysterau ffurfiol.
- 3.16 Roedd bwydlenni'n cael eu defnyddio mewn pedair wythnos a oedd yn cael eu newid o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn. Roedd yr ymgynghori yn dda a defnyddiwyd arolwg blynyddol i ddylanwadu ar y ddarpariaeth. Yn ein harolwg, roedd llawer llai o garcharorion ym Mrynbuga o'r farn bod y bwyd yn dda neu'n dda iawn – dim ond 50% o'i gymharu â 75% yn 2017. Fodd bynnag, buom yn ymweld â'r gwasanaeth bwyd yn y ddau safle ac roedd yr holl garcharorion y buom yn siarad â hwy yn gadarnhaol ar y cyfan am y bwyd a gawsant. Roedd y prydau bwyd a welsom drwy gydol yr arolygiad yn cael eu cyflwyno'n dda ac yn cael eu darparu mewn niferoedd rhesymol. Samplwyd y bwyd yn y man gweini yn y ddau safle ac roeddem yn credu ei fod yn dda.
- 3.17 Roedd y llyfrau sylwadau bwyd a oedd ar gael yn cynnwys rhai cwynion, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi derbyn ymateb. Roedd staff arlwyo hefyd yn mynychu'r gwasanaeth bwyd yn rheolaidd i ddelio'n uniongyrchol ag unrhyw faterion.
- 3.18 Roedd cyfleusterau hunanarlwyo yn rhy gyfyngedig ac ar gael i nifer fach o garcharorion ym Mhrescoed yn unig.

- 3.19 Nid oedd effeithiwyd ar ddarpariaeth y siop drwy gydol y pandemig. Roedd yr amrywiaeth o eitemau'n rhesymol a dywedodd y rhan fwyaf o garcharorion yn y ddau safle fod y siop yn gwerthu'r hyn roedd arnynt ei angen (66% ym Mrynbuga a 75% ym Mhrescoed). Gallai carcharorion archebu nwyddau electronig, dillad a deunyddiau hamdden o amrywiaeth o gatalogau.
- 3.20 Gallai newydd-ddyfodiaid aros hyd at naw diwrnod am eu harcheb lawn gyntaf, a oedd yn golygu eu bod yn agored i gael eu bwlio pe baent yn benthyg nwyddau i lenwi'r bwlch hwnnw. Roedd hi'n anarferol i garcharorion ym Mhrescoed beidio cael pecyn bwyd wrth gyrraedd.

### **Argymhelliad**

- 3.21 **Dylid cynnig mynediad cynnar i amrywiaeth o nwyddau bwyd i garcharorion sydd newydd gyrraedd Prescoed nes iddynt gael eu archeb siop lawn gyntaf.**

### **Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau ac unioni**

- 3.22 Roedd ystod eang o wybodaeth ar gael ar bob adain ym Mrynbuga ac mewn man canolog ym Mhrescoed o'r enw 'Control'. Roedd system ymgeisio triphlyg wedi cael ei hail-gyflwyno'n ddiweddar fel y gellid olrhain ymatebion i geisiadau. Roedd staff rheoli ar gael drwy gydol y dydd a gallai carcharorion ddod yno unrhyw bryd i gael gwybodaeth a chymorth. Yn ein harolwg, dywedodd 85% o'r ymatebwyr ym Mrynbuga a 94% ym Mhrescoed ei bod yn hawdd gwneud cais, tra dywedodd 71% ym Mrynbuga ac 81% ym Mhrescoed eu bod yn cael eu trin yn deg.
- 3.23 Roedd ffurflenni cwyno ar gael. Roedd nifer y cwynion yn isel ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer carchardai tebyg. Roedd materion preswyl yn ymddangos yn rheolaidd ym Mrynbuga – roedd rheolwyr wedi cydnabod hyn ac wedi cynnal dadansoddiad pellach i fynd i'r afael â materion lle roedd hynny'n bosibl. Ym Mhrescoed, fel mewn carchardai tebyg eraill, roedd y rhan fwyaf o gwynion yn ymwneud ag eiddo yn peidio â chyrraedd o garchardai eraill. Roedd yr ymatebion yn y ddau safle yn amserol a chafodd y rhan fwyaf o'r dogfennau a adolygwyd gennym eu hateb yn ddigonol. Roedd prosesau monitro a sicrhau ansawdd yn rhesymol.
- 3.24 Roedd y trefniadau ymgynghori yn dda. Roedd gan bob glaniad ym Mrynbuga, a phob uned breswyl ym Mhrescoed gynrychiolydd a oedd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd i godi unrhyw bryderon a thrafod cyfleoedd. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth i'r carchar ddod dros gyfyngiadau i'r gyfundrefn yn ystod y pandemig. (Gweler paragraff 3.3.)
- 3.25 Roedd amrywiaeth o lyfrau cyfreithiol ar gael yn y ddwy lyfrgell. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer ymweliadau cyfreithiol yn bodloni'r galw a chynigwyd cynadledda fideo ym Mrynbuga.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a ffydd

Deilliannau disgwylidig: Mae dull clir o hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da. Mae anghenion penodol carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (gweler Atodiad II: Geirfa) ac unrhyw nodweddion lleiafrifol eraill yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw. Mae carcharorion yn gallu arfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

### Rheolaeth strategol

- 3.26 Fel yn yr arolygiad diwethaf, roedd bylchau yn y dull o rheoli cydraddoldeb yn strategol, a gwelsom nad oedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Roedd yr aelod staff arweiniol ym maes cydraddoldeb yn uwch reolwr a oedd hefyd yn gyfrifol am faterion preswyl ym Mrynbuga a diogelwch ar draws y ddau garchar. Yn yr arolygiad blaenorol, fe'n calonogwyd gan y ffaith bod dwy swydd swyddog cydraddoldeb wedi'u cyflwyno, ond erbyn hyn nid oedd neb yn y swyddi hynny, a hynny ers o leiaf blwyddyn.
- 3.27 Roedd naw deg dau y cant o holl staff y carchar wedi cwblhau hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb a dywedodd y staff y buom yn siarad â nhw ei fod wedi bod yn ddefnyddiol. Parhaodd y cyfarfod cydraddoldeb chwarterol i redeg gan drafod rhywfaint o ddata perthnasol, ond ni wnaed unrhyw ddadansoddi ac nid oedd y data'n rhoi gwybod pa gamau gweithredu oedd eu hangen i fynd i'r afael â chanlyniadau anghymesur i garcharorion â nodweddion gwarchodedig. Nid oedd gan y carchar gynllun gweithredu cydraddoldeb cyfunol trosfwaol.
- 3.28 Roedd uwch arweinydd penodol yn gyfrifol am godi proffil a hyrwyddo cynhwysiant pob nodwedd warchodedig, ond nid oedd y rhan fwyaf o arweinwyr wedi datblygu eu maes fel hyn, ac nid oeddent ychwaith wedi cadeirio na mynychu fforymau priodol gyda charcharorion a oedd wedi parhau i gael eu cynnal drwy gydol y pandemig. Dywedodd uwch arweinwyr y byddent yn mynd i'r afael â hyn pan fu i ni godi'r mater gyda nhw.
- 3.29 Fodd bynnag, er gwaethaf y gwendidau strategol hyn, roedd y canlyniadau i garcharorion â nodweddion gwarchodedig yn gadarnhaol ar y cyfan a dywedodd llawer o'r carcharorion y buom ni'n siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi. Cynhaliwyd fforymau ym Mrynbuga yn aml ac roedd cofnodion yn dangos bod camau'n cael eu cymryd. Fodd bynnag, roedd fforymau ym Mhrescoed yn cael eu rheoli gan grŵp ymroddedig o garcharorion. Ychydig iawn o oruchwyliaeth, os o gwbl, oedd gan uwch arweinwyr ar faterion cydraddoldeb a godwyd ym Mhrescoed. Canfuom nad oedd arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau a amlygwyd gan garcharorion am nifer o fisoedd.

- 3.30 Roedd yna gynrychiolwyr carcharorion ar gyfer y rhan fwyaf o'r nodweddion gwarchoddedig yn y ddau garchar. Roedden nhw'n gwisgo crysau-T unigryw ac roedden nhw ar gael i garcharorion siarad â nhw. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt ddisgrifiadau swydd ac nid oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant. Roedd yr arweinwyr roedden ni wedi siarad â nhw wedi ymrwymo i ddatrys hyn cyn gynted ag y gallent.
- 3.31 Fel yn 2017, roedd carcharorion wedi cyflwyno ychydig iawn o ffurflenni riportio digwyddiadau gwahaniaethu (DIRF). Roedd y ffurflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd cyfanswm o saith ar draws y ddau garchar wedi cael eu cyflwyno yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd rhai carcharorion wrth arolygwyr nad oeddent yn ddigon hyderus yn y broses DIRF. Ymchwiliwyd yn eithaf da i gwynion DIRF o fewn amserlenni derbyniol ac roedd uwch arweinydd wedi sicrhau ansawdd pob un yn briodol.. Dywedodd arweinwyr y byddent yn archwilio pam nad oedd gan rai carcharorion hyder yn y broses.

### Argymhelliad

- 3.32 **Dylai arweinwyr a rheolwyr gynnwys y camau gweithredu a godir mewn fforymau nodweddion gwarchoddedig a chyfarfodydd pwyllgorau cydraddoldeb mewn cynllun gweithredu cydraddoldeb a greffir arno yn rheolaidd.**

### Nodweddion Gwarchoddedig

- 3.33 Yn ôl data carchardai, nododd 9% o garcharorion ym Mrynbuga ac 11% ym Mhrescoed eu bod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig. Roedd fforymau ar gyfer y grŵp hwn wedi bod yn rhedeg yn rheolaidd ar y ddau safle ac nid oedd y carcharorion du a lleiafrifoedd ethnig y buom yn siarad â hwy yn y ddau garchar wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch triniaeth anghymesur.
- 3.34 Roedd y gefnogaeth i garcharorion o'r gymuned Sipsiwn, Romani a Theithwyr wedi gwella ac roedd rheolwyr carchardai wedi cynnal fforymau Teithwyr ym Mrynbuga, a dywedodd y carcharorion eu bod yn ddefnyddiol. Roedd arweinwyr a rheolwyr hefyd wedi ymdrechu i godi ymwybyddiaeth drwy arddangos gwybodaeth i ddatlu hanes Teithwyr mewn rhan ganolog o'r carchar. Roedd y teithwyr y buom ni'n siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda.
- 3.35 Roedd data carchardai'n dangos bod 4.9% o'r carcharorion ym Mrynbuga a dim ond un carcharor ym Mhrescoed yn wladolion tramor. Fel yn 2017, ychydig o gefnogaeth a gafodd carcharorion sy'n wladolion tramor ac nid oedd y Swyddfa Gartref yn cynnal unrhyw wasanaethau wyneb yn wyneb rheolaidd. Roedd dogfennau'n cael eu cyfieithu i'r staff erbyn hyn ac roedd gwasanaethau cyfieithu ffurfiol yn cael eu defnyddio ar gyfer y rhai oedd eu hangen.
- 3.36 Yn ein harolwg, nododd 32% o garcharorion ym Mrynbuga a 21% ym Mhrescoed fod ganddynt anabledd. Fel yn yr arolygiad blaenorol, roedd llawer o'r llety a'r mynediad i rai mannau gwaith ac addysg yn dal yn

anaddas i garcharorion ag anawsterau symud ac anghenion gofal. Fodd bynnag, roedd addasiadau wedi cael eu gwneud i ddwy gell ym Mrynbuga a dywedodd y carcharorion y buom ni'n siarad â nhw a oedd yn byw yno eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

- 3.37 Roedd carcharorion a oedd angen cadair olwyn ym Mhrescoed yn fwy tebygol o gael eu trosglwyddo i garchar agored arall. Dywedodd y rheolwyr mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd goblygiadau cost addasu'r carchar yn ymarferol, a theimlem nad oedd hynny yn rheswm dilys. Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr y buom yn siarad â nhw y byddent yn adolygu'r polisi.
- 3.38 Yn ein harolwg, nododd 14% o garcharorion ym Mrynbuga a 5% ym Mhrescoed eu bod yn LGBT. Roedd cynrychiolydd wedi'i enwebu gyfer carcharorion LGBT ac roedd fforymau LGBT wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Dywedodd carcharorion LGBT y buom yn siarad â nhw eu bod yn teimlo yr ymgynghorir â nhw a'u bod yn gallu siarad â staff am eu pryderon. Roedd y faner LGBT wedi cael ei gosod mewn safle amlwg yn ystod mis Pride ym Mrynbuga ac roedd yn arwydd o'r ethos cynhwysol a welsom yn y ddau garchar.
- 3.39 Dywedodd carcharorion trawsryweddol y buom yn siarad â nhw eu bod yn gallu cael gafael ar ddiplad a phethau ymolchi priodol. Roedd tîm amlddisgyblaethol yn cynnal byrddau trawsryweddol, lle cynhaliwyd adolygiadau ar gyfer y carcharorion hyn, ac roedd mewnbyn gofal iechyd yn briodol.
- 3.40 Ym Mrynbuga, roedd tua 9% o'r boblogaeth mewn oedran ymddeol ac er bod y rhan fwyaf wedi'u datgloi yn ystod y dydd, daethom ar draws rhai carcharorion hyn wedi'u cloi yn eu celloedd yn ystod y diwrnod craidd pan ddylent fod wedi cael eu gadael allan o'u celloedd. Fel o'r blaen, prin oedd y ddarpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion iau.
- 3.41 Roedd cyn-filwyr yn y ddau garchar yn dal i gael cymorth gan gynrychiolwyr carcharorion ac aelod dynodedig o staff. Roeddent yn cefnogi cyn-filwyr ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.

### **Ffydd a chrefydd**

- 3.42 Yn ein harolwg, dywedodd 79% ym Mhrescoed a 71% ym Mrynbuga eu bod yn gallu siarad â chaplan o'u ffydd eu hunain.
- 3.43 Roedd y rhan fwyaf o grefyddau yn dal i gael cefnogaeth gan yr un caplaniaid ar draws y ddau garchar, ac roedd llawer o'r carcharorion y buom ni'n siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth roedden nhw'n ei darparu. Roedd y caplan rheoli hefyd yn cefnogi CEM Caerdydd a CEM Abertawe. Soniodd Caplaniaid am yr anawsterau logistaidd o ddarparu'r holl wasanaethau angenrheidiol i ddiwallu anghenion carcharorion.

- 3.44 Roedd y capeli yn y ddau garchar yn groesawgar ac yn addas. Roedden nhw hefyd yn darparu lle diogel i ddarparu cymorth un-i-un i garcharorion mewn argyfwng.
- 3.45 Roedd nifer o'r carcharorion y buom ni'n siarad â nhw wedi cwyno bod yr ystafell aml-ffydd wedi cael ei symud i lety dros dro. Gwelsom nad oedd yr ystafell wedi'i pharatoi'n ddigonol fel lle ar gyfer myfyrdod neu weddio. Dywedodd rheolwyr fod ganddynt gynlluniau i fynd i'r afael â hyn yn yr wythnosau ar ôl yr arolygiad.
- 3.46 Roedd grwpiau ffydd, fel astudiaethau'r Beibl a dosbarthiadau Islamaidd wedi cael eu hailgyflwyno gan gadw pellter cymdeithasol, ond roedd caplaniaid a charcharorion yn poeni am y gostyngiad yn y nifer a oedd yn gallu mynychu.
- 3.47 Nid oedd gan Frynbuga gynrychiolydd enwebedig ar gyfer carcharorion ffydd ac nid oedd unrhyw fforymau ffydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dywedodd rheolwyr wrthym eu bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- 3.48 Roedd data carchardai'n dangos bod carcharorion Mwslimaidd yn cynrychioli 6% o'r boblogaeth ym Mhrescoed a 5% ym Mrynbuga. Roedd y rheini roedden ni wedi siarad â nhw yn canmol y caplan Mwslimaidd a'r gefnogaeth roedden nhw wedi'i chael i ymarfer eu ffydd. Dywedasant wrthym hefyd fod gweddïau dydd Gwener wedi dechrau'n brydlon ar y cyfan a bod darpariaeth briodol ar gyfer eu hanghenion dietegol crefyddol. Roedd rheolwyr wedi gwneud yn siŵr bod bwyd halal wedi'i labelu'n glir yn y cownter arlwygo ac roedd offer ar gyfer gweini bwyd wedi eu dynodi'n gywir yn cael eu defnyddio ar gyfer cyswllt â bwyd halal yn unig.

## Argymhellion

- 3.49 **Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod ystafell aml-ffydd sy'n addas ar gyfer ymarfer ffydd ar gael, a darparu cefnogaeth un-i-un.**
- 3.50 **Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod fforymau ffydd yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion sydd â phryderon sy'n ymwneud â ffydd.**

## Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

Deilliannau disgwylidig: Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau ac sy'n hyrwyddo parhad gofal pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i'r hyn y gallai cleifion ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

## Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

- 3.51 Bu'r carchar a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau iechyd. Roeddent wedi cael cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar reoli heintiau COVID-19 yn y carchardai. Yn ein harolwg, dywedodd 95% o'r ymatebwyr yn y ddau garchar fod y gwasanaethau'n dda iawn neu'n eithaf da. Er bod angen diweddarau'r asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth, mae gwasanaethau iechyd sy'n cael eu harwain yn dda wedi datblygu ers 2017 ac wedi diwallu anghenion y cleifion.
- 3.52 Ychydig iawn o ddigwyddiadau a chamgymeriadau niweidiol a welwyd (naw mewn chwe mis) a dim cwynion mewn chwe mis. Roedd tystiolaeth bod staff wedi dysgu o ddigwyddiadau a marwolaethau yn y ddalfa. Roedd yr ymatebion blaenorol i gwynion a samplwyd gennym yn briodol ac yn rhoi sylw i'r materion a godwyd, ac ni soniwyd mwyach am gwynion yng nghofnodion clinigol unigolion. Yn ddiweddar, roedd archwiliadau clinigol wedi aildechrau ar ôl llacio cyfyngiadau COVID-19. Roedd defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu harolygu yn ystod y cyfyngiadau ac roedd y farn a fynegwyd ganddynt yn gadarnhaol ar y cyfan.
- 3.53 Er bod y tîm iechyd yn fach, roedd wedi tyfu a lledu ei ystod o gymwyseddau i gynnwys rhagnodi gan nyrsys. Roedd uwch nyrs wedi'i lleoli ym Mhrescoed, a oedd wedi gwella arweinyddiaeth. Roedd y staff yn llawn cymhelliant ac roedd pob nyrs yn cymryd rhan mewn datblygiad personol y tu hwnt i'r gofynion gorfodol. Cynhaliwyd goruchwyliaeth glinigol gan gymheiriaid ond nid oedd yn cael ei chofnodi'n aml. Cynigiodd y tîm wasanaethau ar y ddau safle rhwng 8am a 4.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a hyd at 7pm ym Mhrescoed ar ddydd Mercher i roi mynediad i'r rheini sy'n gweithio y tu allan i'r carchar.
- 3.54 Roedd y staff yn defnyddio SystemOne (y system gwybodaeth glinigol electronig) – gwelsom gadw cofnodion clinigol da, ac roedd y gwaith o gynllunio gofal ar gyfer cleifion sydd â chyflyrau hirdymor wedi'i atgyfnerthu.
- 3.55 Roedd staff clinigol yn hawdd eu hadnabod. Cynhaliwyd ymgynghoriadau'n breifat oni bai fod asesiad risg yn dangos bod angen hebryngwyr. Gallai cleifion ofyn am feddyg teulu o'r rhyw o'u dewis, ac eithrio mewn argyfwng. Roedd y perthnasoedd yn broffesiynol ac yn dda eu natur. Roedd clinigwyr yn adnabod eu cleifion yn dda.
- 3.56 Roedd canolfannau iechyd yn y ddau safle yn lân. Bu archwiliad atal a rheoli haint yn ddiweddar er mwyn sbarduno gwelliannau. Roedd yr offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng ar bob safle yn cynnwys diffibrilwyr allanol awtomatig ac offer diogelu personol COVID-19 (gweler Atodiad II: Geirfa), a gafodd eu gwirio a'u cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd bagiau gafaél mewn argyfwng, er eu bod ar olwynion, yn drwm i'w cludo.



## Hybu iechyd a lles

- 3.57 Roedd arferion eisteddog carcharorion yn ystod cyfyngiadau COVID-19 wedi arwain at rai yn magu pwysau. Roedd y carchardai wedi mabwysiadu strategaeth Pum Ffordd at Les Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn a materion eraill. Er enghraifft, ym Mhrescoed, roedd grŵp ar y cyd rhwng carcharorion a staff wedi cynhyrchu cylchlythyr llawn gwybodaeth ym mis Ebrill i hyrwyddo lles, ac roedd staff y gampfa a charcharorion wedi creu gardd lles i annog ymwybyddiaeth ofalgar. Roedd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ar y ddau safle i ddatblygu ffyrdd o hyrwyddo lles.
- 3.58 Yr oedd hybu iechyd yn y canolfannau iechyd yn amlwg iawn. Roedd rhaglenni sgrinio iechyd cenedlaethol megis sgrinio'r coluddyn wedi ailddechrau, ac roedd yr ystod lawn o imiwneiddiadau a brechiadau a oedd ar gael yn adlewyrchu anghenion y poblogaethau ym mhob carchar.
- 3.59 Roedd cyngor a chyflenwadau lleihau niwed ar gael gan y canolfannau iechyd. Ni chaniatawyd ysmegu ym Mrynbuga ond caniatwyd hynny ym Mhrescoed. Roedd cleifion ym Mhrescoed yn gallu cael therapi disodli nicotin fel rhan o raglen rhoi'r gorau i ysmegu.

## Gofal sylfaenol

- 3.60 Cafodd pawb sy'n cyrraedd y carchar o'r newydd sgriniad iechyd ar y diwrnod y cyraeddasant, ac yna asesiad cynhwysfawr eilaidd o fewn tri diwrnod. Cyfeiriwyd at adrannau eraill, yn ôl yr angen. Cafodd cleifion newydd gyflwyniad ysgrifenedig priodol i wasanaethau iechyd.
- 3.61 Gwelsom gleifion yn cyfeirio eu hunain at glinigau galw heibio dan ofal nyrsys ym mhob canolfan iechyd. Roedd y gweinyddwr a'r tîm iechyd yn effeithlon ac yn gyfrinachol yn sicrhau bod yr ymatebion i geisiadau ysgrifenedig yn brydlon, gan arwain at gyfraddau absenoldeb isel iawn. Er gwaethaf heriau COVID-19, roedd yr amseroedd aros yn fyr. Roedd y mynediad at y meddyg teulu yn ardderchog ac roedd apwyntiadau nad oeddent yn rhai brys ar gael o fewn tri diwrnod gwaith yn y ddau safle.
- 3.62 Roedd clinigau gofal sylfaenol a arweinir gan feddygon teulu ac a arweinir gan nyrsys ar gael yn y ddau safle, wedi'u hategu gan arbenigwyr ymweld sy'n cynnal clinigau mewn meysydd fel hepatitis C, optometreg, ffisiotherapi a phodiatreg. Roedd trefniadau addas ar waith i gleifion fynd i apwyntiadau ysbyty, gan gynnwys drwy ddefnyddio ymgynghoriadau dros y ffôn ag arbenigwyr ysbytai, a oedd yn arbennig o werthfawr yn ystod cyfyngiadau COVID-19.
- 3.63 Mae gofal i gleifion sydd â chyflyrau gydol oes, fel clefyd y galon a diabetes, wedi gwella ers 2017. Roedd cofrestrau o'r rhai yr oedd angen eu monitro ar SystmOne, meddygon teulu a nyrsys â diddordebau arbennig wedi cymryd yr awenau gyda'u gofal, ac roedd cynorthwyyr gofal iechyd yn darparu cefnogaeth reolaidd, megis cymryd cyfrifoldeb am agweddau cymhleth ar ofal traed diabetig.

- 3.64 Roedd y carchardai wedi ymateb yn dda i bandemig COVID-19. Roedd un claf wedi marw. Roedd yr adran gofal iechyd wedi paratoi'n dda i reoli rhagor o achosion ac mae'r carchardai bellach wedi profi carcharorion newydd a'r rheini a oedd yn datblygu symptomau. Roedd ymwybyddiaeth swyddogion carchardai a chleifion o COVID-19 yn uchel, ac roedd y rhaglen frechu yn cyd-fynd â'r hyn oedd ar gael yn y gymuned.
- 3.65 Roedd y carchardai a'u partneriaid wedi rhoi llwybr gofal diwedd oes cynhwysfawr ar waith. Roedd dwy gell ym Mrynbuga wedi cael eu troi'n ystafell gofal lliniarol i alluogi dynion i aros yn y carchar a chael gofal, os dymunant, ar ddiwedd eu hoes.
- 3.66 Roedd y gwaith paratoi cyn-rhyddhau ar gyfer cleifion yn dda. Cafodd yr holl garcharorion gynnig apwyntiadau ar gyfer archwiliadau meddygol a chawsant gymorth i ddod o hyd i feddygon teulu os nad oedd ganddynt un. Rhoddwyd llythyrau crynodeb iechyd i gleifion eu hanfon at eu meddygon teulu, meddyginiaethau i fynd adref gyda hwy a chyngor ar leihau niwed.

### **Gofal cymdeithasol**

- 3.67 Roedd memorandwm cyd-ddealltwriaeth a phrotocol rhannu gwybodaeth wedi'u hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd rhwng y carchardai, Cyngor Sir Fynwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac roedd y partneriaethau'n effeithiol iawn. Roedd gweithiwr cymdeithasol dynodedig ac uwch therapydd galwedigaethol wedi eu lleoli yn y carchardai dri diwrnod yr wythnos, a oedd yn ardderchog. (Gweler paragraff 1.46.)
- 3.68 Nodwyd anghenion gofal cymdeithasol cleifion yn y dderbynfa a chynhaliwyd asesiadau yn brydlon. Cynhaliwyd cyfarfodydd aml-ddisgyblaeth wythnosol rhwng staff yr adran gofal iechyd, y carchar a gofal cymdeithasol i adolygu gofal defnyddwyr y gwasanaeth a thrafod atgyfeiriadau. Yn ystod yr arolygiad, roedd pum carcharor yn derbyn pecynnau gofal cymdeithasol (gweler Atodiad II: Geirfa) ym Mrynbuga.
- 3.69 Canolbwyntiwyd yn arbennig ar alluogi defnyddwyr gwasanaeth i fod mor annibynnol â phosibl. Cafodd ymyriadau eu teilwra i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, gwella lles, a dysgu sgiliau bywyd cyn eu rhyddhau. Ailagorodd y cyfleuster dydd ym Mrynbuga yn ystod yr arolygiad a gwelsom gynlluniau i gefnogi carcharorion wrth iddynt symud i'r gymuned. (Gweler paragraff 1.46.)
- 3.70 Roedd cyfeillion carcharorion yn darparu cymorth cymheiriaid, roeddent wedi cael hyfforddiant priodol, ac roeddent yn cael eu goruchwyllo yn eu rolau. Roedd y cleifion y buom yn siarad â hwy yn gwerthfawrogi cymorth cyfeillion gyda'u tasgau byw bob dydd.

### **Gofal iechyd meddwl**

- 3.71 Ni chynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar gyfer staff y carchar yn rheolaidd oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Er

hynny, roedd y swyddogion y buom yn siarad â hwy yn gwybod pryd i gyfeirio cleifion, ac roedd yr atgyfeiriadau'n briodol. Cafwyd hyd at 12 atgyfeiriad yr wythnos o'r ddau safle, a gwelwyd pob claf o fewn tri diwrnod gwaith, ac fel arfer ar yr un diwrnod. Deilliodd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau o sgrinio yn y dderbynfa, neu o ganlyniad i gleifion yn cyfeirio eu hunain. Yn ein harolwg, dywedodd 45% o'r ymatebwyr o Frynbuga, a 28% o Brescoed, fod ganddynt broblemau iechyd meddwl.

- 3.72 Fel yn 2017, darparodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddwy nyrs iechyd meddwl rhan-amser profiadol iawn i gleifion yn y ddau safle, gyda chymorth seiciatrydd fforensig ar ymweliad. Roedd gan y ddwy nyrs drefniadau hyfforddi a goruchwyllo addas. Mynychodd y nyrsys gyfarfodydd diogelwch ac achos perthnasol yn y carchar er mwyn hysbysu dulliau gofal ar y cyd.
- 3.73 Roedd 62 o gleifion yn y llwyth achosion iechyd meddwl. Defnyddiodd y nyrsys ddulliau un-i-un sy'n seiliedig ar atebion, gan gynnwys therapi gwybyddol ac EMDR (therapi seicotherapi sydd wedi'i ddylunio i liniaru meddyliau trallodus sy'n gysylltiedig â straen trawmatig), ochr yn ochr â chwmsela ar gyfer cefnogaeth emosiynol a gwaith sy'n gysylltiedig â thrawma. Roedd nifer o gleifion wedi ysgrifennu tystlythyrau i fynegi eu gwerthfawrogiad o effeithiolrwydd y triniaethau.
- 3.74 Roedd y systemau ar gyfer cofnodi asesiadau clinigol a risg a chynlluniau gofal wedi gwella ac yn dda iawn. Roedd cynorthwywyr gofal iechyd yn gwneud yn siŵr bod cleifion iechyd meddwl yn cael archwiliadau iechyd corfforol hanfodol, sy'n welliant ers y tro diwethaf i ni eu harchwilio.
- 3.75 Cydlynwyd y gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau gyda'r uned rheoli troseddwy, a defnyddiwyd y dull cynllun gofal a thriniaeth a orfodir gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru), yn ôl yr angen. Nid oedd neb wedi cael ei drosglwyddo o dan y mesur ers ein harolygiad diwethaf.

### **Triniaeth ar gyfer defnyddio sylweddau**

- 3.76 Yn ein harolwg, dim ond 2% o garcharorion Brynbuga a 1% ym Mhrescoed a ddywedodd bod ganddynt broblem alcohol neu gyffuriau wrth gyrraedd. Nid oedd cleifion sy'n cael therapi amnewid opiadau yn cael eu derbyn yn y naill garchar na'r llall.
- 3.77 Rhoddodd Dyfodol gefnogaeth seicogymdeithasol i tua 160 o gleifion ar draws y ddau safle, a pharhaodd i weld yr holl newydd-ddyfodiaid, ac erbyn hyn roedd mentoriaid cymheiriaid yn gweithio yn y ddau garchar. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, roedd y rhan fwyaf o gymorth yn cael ei gynnig ar sail un-i-un, ond roedd gwaith grŵp ar fin dechrau adeg yr arolygiad.
- 3.78 Roedd cleifion ym Mhrescoed yn dal i gael mynediad at y rhaglen Cynyddu Ymwybyddiaeth o Gamdefnyddio Sylweddau drwy Addysg ragorol, lle bu staff Dyfodol yn cyd-hwyluso sesiynau.

- 3.79 Roedd y trefniadau gofal drwy'r broses yn dda, a darparodd staff Dyfodol gyngor ar atal llithro'n ôl, strategaethau ymdopi a lleihau niwed. Roedd cysylltiadau da gyda staff cymunedol defnyddio sylweddau, a oedd yn hyrwyddo parhad gofal yn effeithiol. Rhoddwyd naloxone i garcharorion (cyffur i reoli gorddos o sylweddau) i fynd adref a chawsant hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio. Cafodd staff y ddalfa eu hyfforddi hefyd i ddefnyddio naloxone, a oedd yn dda.

### **Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol**

- 3.80 Darparwyd meddyginiaethau, yn bennaf ar gyfer cleifion penodol, o fferyllfa gymunedol leol. Nid oedd neb o'r fferyllfa gymunedol yn ymweld â'r carchardai. Roedd meddyginiaethau'n cael eu rheoli, ar draws y ddau safle, gan un technegydd fferyllfa a gyflogwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gyda chymorth amlddisgyblaethol, nad oedd yn ddigonol. Roedd gan y carchardai fferylllydd arweiniol, ond roeddent wedi cael eu secondio i rôl COVID-19 dros dro ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. O ganlyniad, ni chafodd cleifion gyngor fferylllydd ac nid oedd eu meddyginiaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd (gweler y prif bryder ac argymhelliad yn 1.42).
- 3.81 Cafodd yr holl gleifion eu meddyginiaethau eu hunain. Nid oedd polisi meddiannu mewnol, er bod asesiadau risg o'r carchar a oedd yn trosglwyddo yn cael eu gwirio. Fodd bynnag, oni bai fod carcharor wedi gweld meddyg, gellid cyflenwi meddyginiaethau drwy geisiadau dro ar ôl tro heb yr oruchwyliaeth broffesiynol angenrheidiol i wneud yn siŵr eu bod yn dal yn addas ac yn cael eu cymryd yn ôl y presgripsiwn. Roedd deg y cant o gleifion wedi cymryd meddyginiaeth gwrth-iselder wedi'i chwistrellu, ac nid honno oedd y driniaeth ddewis gyntaf arferol ar gyfer iselder. Roedd pump y cant o gleifion wedi cymryd meddyginiaeth lleddfu poen y gellir ei gam-drin, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r rhagnodi hwn wedi bod yn destun adolygiad gan fferylllydd o'r defnydd o feddyginiaethau.
- 3.82 Roedd cleifion yn gallu storio eu meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd darpariaeth ar gyfer cleifion a oedd yn gweithio i gasglu eu meddyginiaethau gyda'r nos a rhywfaint o ddarpariaeth, mewn amgylchiadau eithriadol, i oruchwyllo'r gwaith o roi meddyginiaethau.
- 3.83 Dim ond dwy feddyginiaeth yr oedd cleifion yn gallu eu cael i drin mân anhwylderau, naill ai o beiriant gwerthu neu drwy ymweld â'r adran gofal iechyd. Prin oedd y protocolau ar gyfer darparu meddyginiaethau cryfach heb fod angen gweld meddyg. Roedd hyn yn golygu bod angen i garcharorion weld meddyg i gael meddyginiaeth syml a fyddai ar gael i'w prynu mewn lleoliad cymunedol.
- 3.84 Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio a'u dosbarthu o un ystafell ar bob safle. Roedd y meddyginiaethau i gleifion penodol ar gyfer eu casglu yn cael eu storio'n daclus. Fodd bynnag, roedd rhai meddyginiaethau cleifion penodol blaenorol yn cael eu cadw yn y cypyrddau stoc cyffredinol. Roedd meddyginiaethau eraill heb eu labelu, nad oeddent wedi'u rhestru ar unrhyw brotocol ar gyfer cyflenwi, yn cael eu storio mewn un cwpwrdd. Roedd yna focsys wedi'u pecynnu

ymlaen llaw o feddyginiaeth a gyflenwyd gan y fferyllfa leol, a oedd yn mynd yn groes i ofynion cyfreithiol. Ar wahân i'r peiriant fendio, nid oedd unrhyw weithdrefnau cysoni stoc. Dim ond ym Mrynbuga yr oedd cyffuriau a reolir yn cael eu storio, ond roedd y gweithdrefnau diogelwch ar gyfer yr allweddi i'r cabinet yn wael.

- 3.85 Cafwyd presenoldeb da mewn cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau, ond nid gan y fferylllydd o'r fferyllfa gymunedol. Roedd gwallau dosbarthu cyffuriau diweddar wedi cael eu cofnodi'n electronig a'u hesgoli drwy system Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Fodd bynnag, ni allai'r fferyllfa gymunedol gael mynediad at y system ac nid oedd unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar gyfer rhoi gwybod i'r fferyllfa am y gwallau, a allai fod wedi golygu y gellid dysgu gwersi.

### **Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg**

- 3.86 Roedd gwasanaethau deintyddol wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Roedd Time for Teeth yn darparu triniaeth reolaidd a brys ac yn darparu cyngor ar iechyd y geg yn y ddau safle, gyda dyddiau'n cael eu pennu ar wahân ar gyfer y ddau garchar. Roedd trefn lywodraethu'r gwasanaeth yn cael ei rheoli'n dda. Yn ein harolwg, dywedodd 70% o garcharorion ym Mrynbuga fod gwasanaethau deintyddol yn eithaf da neu'n dda iawn, a roedd y y cleifion y buom yn siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol am y deintydd, er bod llai (48%) yn gadarnhaol amdano ym Mhrescoed.
- 3.87 Roedd ystod lawn o driniaethau deintyddol ar gael ac roedd goruchwyllo a rheoli'r rhestr aros yn dda, a oedd yn golygu bod yr amser aros am apwyntiad arferol yn bedair wythnos, ac roedd hynny'n beth da.
- 3.88 Roedd yr ystafell ddeintyddol fach yn fodern, wedi'i threfnu'n dda ac yn cydymffurfio â safonau rheoli heintiau.

## Section 4 Gweithgarwch pwrpasol

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

### Amser allan o'r gell

Deilliannau disgwylidig: Mae gan bob carcharor ddigon o amser allan o'r gell (gweler Atodiad II: Geirfa) ac fe'u hanogir i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hadsefydlu.

- 4.1 Ar gyfartaledd, roedd carcharorion ym Mrynbuga yn cael dwy awr a 45 munud allan o'u celloedd bob dydd i wneud ymarfer corff y tu allan, gwneud galwad ffôn, cael cawod a chyswllt. Roedd hyn yn llai na'r 11 awr a welwyd gennym yn 2017, ac nid oedd hyn cystal ag y byddem wedi gobeithio ond roedd yn cynrychioli cynnydd gan fod y carchar ymysg y cyntaf i symud i gam 2 cynllun adfer y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i lacio cyfyngiadau COVID-19 (gweler Atodiad II: Geirfa).
- 4.2 Fel y byddem yn ei ddisgwyl, nid oedd carcharorion ym Mhrescoed fyth yn cael eu cloi yn eu hystafelloedd a gallent dreulio amser y tu allan tan 8.30pm; ar ôl hynny roedd disgwyl iddynt aros yn yr unedau.
- 4.3 Roedd y carcharorion a oedd yn destun trefniadau cohort gwrthdro ym Mrynbuga yn derbyn cyfundrefn deg, a oedd yn cynnwys mynediad i ardaloedd allanol a oedd yr un fath ag ar gyfer yr holl garcharorion eraill ym Mrynbuga. Fodd bynnag, dim ond yn ystod yr wythnosau diwethaf yr oedd y gyfundrefn wedi'i hymestyn.
- 4.4 Roedd llyfrgelloedd ar draws y ddau garchar yn gweithredu yn ystod y pandemig er gwaethaf absenoldeb hir llyfrgellydd ar y ddau safle. Roedd y ddwy lyfrgell yn stocio detholiad bychan o lyfrau a ysgrifennwyd yn Gymraeg i ddarparu ar gyfer carcharorion Cymraeg eu haith.
- 4.5 Roedd carcharorion wedi gweithio'n galed i gadw gwasanaethau'r llyfrgell ar waith, ond roedd angen ailgyflenwi stoc y llyfrgell. Cwynodd carcharorion eu bod wedi diflasu ar hen stoc llyfrau a chyfyngau'r llyfrgell. Roedd y carchar yn gweithio gyda Gwasanaethau Llyfrgell Cyngor Sir Fynwy i ddatrys y broblem hon.



#### **Y llyfrgell ym Mrynbuga**

- 4.6 Roedd cyfleusterau addysg gorfforol dan do ac yn yr awyr agored yn y ddau safle wedi'u trefnu'n dda i garcharorion eu defnyddio ar yr un pryd â chadw pellter cymdeithasol, ac roedd y carcharorion yn gwerthfawrogi hynny. Roedden nhw'n egluro sut roedd hyn yn helpu gyda'u lles meddyliol a chorfforol.



#### **Cae chwaraeon ym Mrynbuga**

- 4.7 Roedd staff AG yn gweithredu ar draws y ddau safle ond nid oeddent yn gallu darparu amserlen lawn oherwydd swyddi gwag o ran hyfforddwyr ac adleoli i ddyletswyddau eraill. Er bod rhai carcharorion yn canmol y tîm addysg gorfforol ac yn gallu defnyddio'r gampfa yn amlach nag eraill, dangosodd data carchardai fod carcharorion ar gyfartaledd yn cael llai nag awr o ddefnydd o'r gampfa bob wythnos. Roedd cyfyngiadau COVID-19 wedi lleihau mynediad at addysg



gorfforol mewn tywydd gwael: cafodd sesiynau chwaraeon awyr agored eu disodli gan weithgareddau dan do yn y gampfa, ond roedd y rhain ddal llawer llai o garcharorion na'r maes chwaraeon. Roedd rheolwyr yn cydnabod bod mynediad i'r gampfa yn anghyson, roedd yn peri rhwystredigaeth ymysg carcharorion ac roedd angen mynd i'r afael â hyn. Dywedasant fod swyddi gwag o ran hyfforddwyr Addysg Gorfforol yn debygol o gael eu llenwi tua diwedd y flwyddyn.

## Argymhellion

- 4.8 **Dylai arweinwyr sicrhau bod llyfrgellwyr ar y ddau safle i roi cymorth i garcharorion sy'n gweithio yno, gan sicrhau bod y stociau'n cael eu hailgyflenwi ac adfer cysylltiadau â llyfrgell Sir Fynwy.**
- 4.9 **Dylai arweinwyr lenwi swyddi gwag hyfforddwyr Addysg Gorfforol a rhoi mwy o fynediad i bob carcharor i'r gampfa.**

## Addysg, sgiliau a gweithgareddau gwaith



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynhelir y rhan hon o'r arolygiad gan arolygwyr Estyn gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod carchardai'n cael eu dal yn atebol i'r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned.

Deilliannau disgwylidig: Gall pob carcharor gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwrpasol, sydd o fudd iddyn nhw ac sy'n gwella eu cyflogadwyedd. Anogir a galluogir carcharorion i ddysgu yn ystod ac ar ôl eu dedfryd. Mae'r ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith o safon dda ac yn effeithiol o ran diwallu anghenion pob carcharor.

- 4.10 **Adeg yr arolygiad, yr oedd gweithgareddau addysg newydd ailddechrau yn y carchardai. Gan fod mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi atal maint arferol dosbarthiadau rhag cyfarfod gyda'i gilydd, roedd Estyn o'r farn ei bod yn amhriodol cynnal arolygiad llawn o addysg a hyfforddiant gan ddefnyddio ei fframwaith arolygu cyffredin. Ymwelodd un o arolygwyr Estyn â gweithgareddau addysg a gwaith ar y ddau safle carchar er mwyn rhoi trosolwg gyffredinol i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o'r ddarpariaeth.**



## **Lles ac agweddau at ddysgu**

- 4.11 Roedd y carchar wedi dechrau gweithredu cynllun adfer sydd wedi'i ddogfennu'n glir (gweler Atodiad II: Geirfa) a oedd yn galluogi carcharorion ym Mrynbuga i aildechrau cymryd rhan mewn rhaglen addysg ran-amser. Roedd y carchar wedi cynnal asesiad risg o ystafelloedd i ganfod uchafswm nifer y dysgwyr y gallai pob un eu lletya. Roedd bron pob carcharor wedi cymryd rhagofalon effeithiol i gadw pellter cymdeithasol a hylendid priodol. Ym Mhrescoed, roedd carcharorion yn defnyddio cyfleusterau'r ystafell ddogfennu yn briodol, ac ar y ddau safle roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd ac i archwilio pynciau academaidd. Mewn gweithdy gwaith coed, roedd un carcharor wedi dechrau gwneud plac coffa o ansawdd uchel i gofio am aelod o staff a fu farw yn ystod y pandemig.
- 4.12 Roedd rhai carcharorion yn y ddau garchar wedi gwneud cynnydd ar gyrsiau'r Brifysgol Agored neu gyrsiau a oedd yn cael eu hariannu gan Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharorion. Roedd nifer ohonynt yn ystyried, gyda chymorth eu tiwtoriaid, yr opsiynau dilyniant oedd ar gael iddynt. Roedd rhai yn anelu at symud ymlaen i raddau uwch ers iddynt raddio ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gawsant i gyflawni'r nodau academaidd hyn. Eglurodd rhai carcharorion nad oeddent ond wedi gallu cwblhau eu hastudiaethau oherwydd bod tiwtoriaid wedi rhoi llyfrau, allbrintiau o'r rhyngwyd a deunydd cyfeirio iddynt yn ystod cyfyngiadau COVID-19.

## **Profiadau dysgu ac addysgu**

- 4.13 Roedd llawer o garcharorion yn teimlo bod y staff addysgu yn gymwynasgar ac yn gefnogol drwy gydol y pandemig. Roeddent nhw'n gwerthfawrogi ymdrechion athrawon i roi pecynnau gweithgareddau iddyn nhw. Cafodd rhai carcharorion gyflenwadau celf i'w galluogi i barhau i beintio yn eu celloedd, gweithgaredd a oedd yn gwella eu hiechyd meddwl yn eu barn nhw. Roedd carcharorion eraill hefyd yn teimlo bod y deunydd a ddarparwyd gan staff i hyrwyddo eu lles yn ddefnyddiol.
- 4.14 Roedd carcharorion ym Mhrescoed wedi cymryd rhan dda mewn lleoliadau gwaith yn y carchar ac yn y gymuned drwy gydol cyfyngiadau COVID-19, ac roedd rhai ym Mrynbuga wedi cael eu cyflogi mewn swyddi hanfodol. Roedd y carchar wedi manteisio i'r eithaf ar botensial Prescoed i ddarparu cyfleoedd gwaith, drwy agor gweithdy gosod brics. Drwy gydol y pandemig, roedd carcharorion wedi cael eu cyflogi i gadw fferm y carchar ar waith er mwyn cyflawni ei gontractau masnachol. Roedd carcharorion hefyd yn cynnal gardd y farchnad, a gafodd ei hystemyn er mwyn gallu tyfu bwyd. Roedd llawer o garcharorion yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn gweithio yn yr awyr agored. Roedd y fferm yn darparu amgylchedd hyfforddiant gwaith o safon uchel, a oedd yn cynnig cyfleoedd da i garcharorion ddatblygu sgiliau ar y tir. Manteisiodd lleiafrif o garcharorion hefyd ar y gwaith hwn i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destun a

oedd yn fwy ystyrllon na phe baent wedi bod yn cwblhau ymarferion mewn ystafell ddsbarth.

- 4.15 Roedd Prescoed yn dal i ddarparu lleoliadau gwaith i garcharorion yn y gymuned. Ar y pwynt isaf yn ystod cyfyngiadau COVID-19, roedd 23 o garcharorion yn dal i weithio gyda sefydliadau y tu allan i'r carchar ac adeg yr arolygiad, roedd y nifer wedi codi i 86.
- 4.16 Roedd carcharorion Brynbuga hefyd wedi cael eu cyflogi mewn gwaith hanfodol yn y carchar.

### **Gofal, cefnogaeth ac arweiniad**

- 4.17 Roedd mentoriaid a chymheiriaid yn annog ac yn cefnogi carcharorion yn effeithiol iawn er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn sesiynau addysg. Buont yn trafod yr ystod o opsiynau addysg gyda carcharorion ac eglurodd un carcharor sut yr oedd gorchymyn wedi ei helpu i ystyried sut y gallai ddefnyddio ei amser yn y carchar i wella ei ragolygon gwaith pan fyddai'n cael ei ryddhau. Roedd mentoriaid a swyddogion ar y ddau safle yn darparu cefnogaeth werthfawr i garcharorion mewn ystafelloedd dosbarth a gweithdai ac yn defnyddio eu dealltwriaeth o amgylchiadau unigolion i helpu dysgwyr i wneud cynnydd yn eu gwaith.
- 4.18 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion ar y ddau safle yn gwybod pa nodau yr oeddent wedi cytuno arnynt yn eu cynlluniau dysgu unigol, dogfen a oedd wedi'i hail-ddylunio'n ddiweddar. Bu'r mwyafrif yn eu trafod gyda thiwtoriaid i'w helpu i gryfhau eu dealltwriaeth o'r opsiynau sydd ar gael iddynt ac i ystyried sut y gallent gyflawni nodau tymor hwy. Roedd y rhan fwyaf yn gwybod beth oedd angen iddynt ei wneud i wneud cynnydd pellach.
- 4.19 Roedd gan rai carcharorion yn y ddau garchar, yn enwedig y rheini a oedd yn gweithio tuag at gymwysterau'r Brifysgol Agored, fynediad cyfyngedig at gyfrifiaduron i'w galluogi i gwblhau gwaith yn ystod y cyfyngiadau. Roedd y carchar wedi cael ychydig o liniaduron i'w helpu i gwblhau gwaith yn eu celloedd. Fodd bynnag, canfu staff fod y cyfrifiaduron hyn yn anaddas. Ers i garcharorion ddechrau ailafael mewn gweithgareddau yn yr ystafell ddsbarth, daeth fynediad at gyfrifiaduron yn rhesymol. Fodd bynnag, ar y ddau safle, nid oedd modd i garcharorion gael gafael ar ddeunydd dysgu ar adnodd rhith gampws y system gyfrifiadurol (mynediad carcharorion at addysg gymunedol, hyfforddiant a chyfluoedd gwaith drwy'r rhyngwyd). Yr oedd ychydig o garcharorion ym Mhrescoed, a oedd wedi dod o garchardai eraill yng Nghymru yn ddiweddar, yn siomedig nad oeddent yn gallu cael gafael ar adnoddau dysgu llythrennedd a rhifedd rhyngweithiol, a oedd wedi bod o gymorth iddynt yn eu carchardai blaenorol.
- 4.20 Roedd y carchar wedi ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur wrth gynllunio'r cwricwlwm. Cyflwynodd Prescoed staff hyfforddedig i ddarparu cymhwyster defnyddiol sy'n berthnasol i ddiwydiant ar gyfer carcharorion sy'n gweithio ym maes rheoli gwastraff, gan drafod

cyfleoedd ar gyfer lleoliadau a chyflogaeth carcharorion gyda chyflogwyr perthnasol. Buddsoddodd mewn wagen fforch godi newydd a bu'n hyfforddi aelod o staff i ddarparu hyfforddiant wagenni fforch godi i ehangu'r amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi y gallai eu darparu ar y fferm. Fe wnaeth carchar Brynbuga alluogi ychydig o ddysgwyr i ennill cerdyn cynllun ardystio sgiliau adeiladu. Nododd y carchar werth y farchnad lafur mewn sgiliau cynnal a chadw rheilffyrdd a dechreuodd edrych ar sut y gellid darparu'r hyfforddiant hwn.

- 4.21 Roedd y carchar yn rhyngweithio'n effeithiol â chyflogwyr, gan eu cynnwys mewn cynlluniau i ymestyn yr ystod o gyfleoedd i garcharorion Prescoed symud ymlaen i leoliadau gwaith. Roedd rhai cyflogwyr mawr yn ymgysylltu â staff carchardai i sefydlu rhaglenni a fyddai'n gwella'r ystod o sgiliau y gallai carcharorion eu hennill. (Gweler paragraff 1.47.)

### **Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

- 4.22 Roedd y carchar wedi cryfhau'r tîm dysgu a sgiliau drwy gael aelod o staff ar secondiad a oedd wedi datblygu calendr a fframwaith rheoli ansawdd defnyddiol, gan dynnu sylw at pryd y byddai gweithgareddau rheoli ansawdd yn cael eu cynnal. Roedd hefyd wedi rhoi aelod o'r tîm addysg yn y fferm i gryfhau hyblygrwydd staff y fferm i ddatblygu ymhellach gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'r farchnad gyflogaeth.
- 4.23 Ym Mhrescoed, roedd siaradwr Cymraeg a gyrhaeddodd yn ddiweddar yn falch o gael bathodyn a oedd yn hysbysebu ei sgiliau iaith, gan deimlo y byddai hyn yn annog siaradwyr Cymraeg eraill i gyfathrebu ag ef. Roedd gan Prescoed ychydig o arddangosfeydd dwyieithog, er nad oedd arwyddion dwyieithog yn cael eu harddangos yn gyson nac yn rheolaidd. Ym Mrynbuga, roedd gan lawer o ystafelloedd dosbarth arddangosfeydd dwyieithog ac roedd rhai yn hyrwyddo diwylliant Cymru. Fodd bynnag, roedd y farn a gyflwynodd y staff wrth werthuso'r defnydd o'r Gymraeg ar y ddau safle yn rhy ganmoliaethus. Nid oedd rhai targedau yn strategaeth iaith Gymraeg y carchar wedi'u cyrraedd eto.

### **Argymhellion**

- 4.24 **Dylai rheolwyr wella mynediad carcharorion at adnoddau dysgu a rhyngweithiol sy'n seiliedig ar TG er mwyn cryfhau eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.**
- 4.25 **Dylid cryfhau cydymffurfiaeth y carchar â'i strategaeth iaith Gymraeg ymhellach.**

## Section 5 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

**Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddan nhw'n aildroseddu ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

### Plant a theuluoedd a chyswilt a'r byd tu allan

Deilliannau disgwylidig: Mae'r carchar yn cefnogi cyswilt carcharorion gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r carchar yn hwyluso rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau magu plant a sgiliau perthynas. Mae carcharorion nad ydyn nhw'n cael ymweliadau yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd eraill i sefydlu neu i gynnal cefnogaeth deuluol.

- 5.1 Roedd rheolwr carchar a thîm bach yn parhau i gefnogi'r llwybr plant a theuluoedd. Roeddent wedi cynnal cysylltiadau gyda phartneriaid ac wedi parhau'n ymroddedig i wella gwasanaethau i garcharorion a'u teuluoedd. Roedd y Panda Bambŵ, cymeriad cartŵn wedi'i ddylunio'n lleol, wedi cael ei gyflwyno i'r holl gyfathrebu gyda theuluoedd, a oedd yn lleihau pryder plant pan oeddent yn ymweld â'u tadau yn y carchar.
- 5.2 Roedd carcharorion yn dal i fethu gwneud galwadau yn breifat ac yn ein harolwg dywedodd 9% o garcharorion ym Mrynbuga na allent wneud galwad ffôn bob dydd. Cwynodd llawer o garcharorion ym Mrynbuga am y mynediad cyfyngedig at ffonau carchar oherwydd prinder amser allan o'u celloedd. Gwelsom giwiau hir ar gyfer y ffonau, a oedd yn caniatáu galwadau hyd at 10 munud. Roedd hon yn ffynhonnell ddifrifol iawn o rwystredigaeth ac nid oedd arweinwyr ym Mrynbuga wedi defnyddio'r ffonau symudol yr oedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) wedi'u rhoi iddynt.
- 5.3 Roedd y post a oedd yn dod i mewn yn dal i gael ei ddanfoni i garcharorion ar y diwrnod ar ôl iddo gyrraedd y carchar, a oedd yn rhy hwyr. Mynegodd carcharorion bryderon wrthym am oedi hwy na diwrnod, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth o ôl-groniadau post yn y naill garchar na'r llall pan wnaethon ni archwilio.
- 5.4 Mae ymgysylltu â theuluoedd yn dal i fod yn dda. Roedd staff Ymddiriedolaeth Gofal a Chyngor Carchardai wedi bod yn absennol o'r carchardai yn ystod y rhan fwyaf o'r pandemig, ond roeddent wedi dychwelyd yn ddiweddar ac roeddent yn darparu gwasanaeth trawiadol, gan gynnwys cwrdd â charcharorion wrth y giât ar ddiwrnod eu rhyddhau, mynd i'w cyfarfod prawf cyntaf, helpu carcharorion i gofrestru gyda meddyg teulu a hwyluso galwad ffôn i sefydlu unrhyw fudd-daliadau. Roedd y carcharorion roedden ni wedi siarad â nhw yn gadarnhaol am eu cefnogaeth.

- 5.5 Yn ein harolwg, dywedodd 38% ym Mrynbuga a 47% ym Mhrescoed fod eu teulu a'u ffrindiau yn teimlo ei bod yn hawdd neu'n weddol hawdd cyrraedd y carchar. Roedd ymweliadau â theuluoedd wedi dod i ben yn ystod y pandemig ond roedd disgwyl iddynt aildechrau ym mis Awst 2021 os bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn caniatáu hynny. Dywedodd y carcharorion y buom yn siarad â nhw a oedd wedi cael ymweliadau o'r blaen eu bod yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn edrych ymlaen at gael eu hailgyflwyno.
- 5.6 Roedd y cyfleusterau ymweld wedi'u paratoi'n dda ac roedd yr ardal blant ym Mhrescoed yn eithriadol. Ond roedd ymweliadau domestig wyneb yn wyneb wedi digwydd yn achlysurol dros y flwyddyn flaenorol yn unol â chanllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru ar atal lledaeniad Covid-19. Er mwyn helpu carcharorion i gynnal cysylltiadau teuluol, roedd arweinwyr Brynbuga wedi defnyddio pabell fawr yn y maes chwaraeon pan nad oedd modd cynnal ymweliadau dan do. Cynhaliwyd cyfanswm o 349 o ymweliadau domestig y tu allan rhwng mis Mehefin 2020 a mis Medi 2020.
- 5.7 Roedd y defnydd o alwadau fideo diogel ym Mhrescoed yn dda iawn – roedd 94% o'r dyraniadau wedi cael eu defnyddio. Fodd bynnag, roedd y defnydd ym Mrynbuga yn llawer is, ac yn ein harolwg, dim ond 8% o'r carcharorion ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r cyfleuster galwadau fideo yn ystod y mis blaenorol. Pan siaradasom ag arweinwyr, daeth yn amlwg nad oedd galwadau fideo wedi bod ar gael yn eang ym Mrynbuga. Dywedodd arweinwyr y buom yn siarad â nhw y byddent yn ceisio ehangu'r ddarpariaeth yn fuan.
- 5.8 Roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi darparu iPads i garcharorion eu defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol. Roeddent wedi cael eu defnyddio 14 gwaith i gefnogi carcharorion a oedd wedi cael profedigaeth.

## **Argymhellion**

- 5.9 **Dylai arweinwyr sicrhau bod carcharorion yn gallu gwneud galwadau ffôn yn breifat.**
- 5.10 **Dylid gosod teleffoni yn y celloedd.**
- 5.11 **Dylai arweinwyr gynyddu mynediad at alwadau fideo diogel er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd carcharorion i gadw mewn cysylltiad â'u plant a'u teuluoedd.**

## **Lleihau risg, ailsefydlu a chynnydd**

Deilliannau disgwylidig: Mae cynllunio ar gyfer rhyddhau carcharor yn dechrau pan fydd yn cyrraedd y carchar. Mae gan bob carcharor reolwr achos penodol a chynllun caethiwed sydd wedi cael ei ddylunio i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol, rheoli'r risg o newid a lleihau'r risg o aildroseddu.

- 5.12 Roedd y proffiliau poblogaeth ar gyfer y ddau garchar yn wahanol iawn. Roedd Brynbuga yn adnodd cenedlaethol ar gyfer darparu rhaglenni triniaeth i droseddwyr rhyw. Aseswyd bod y rhan fwyaf o garcharorion yn peri risg uchel o niwed difrifol i eraill ac roeddent yn bwrw dedfrydau hir o bedair blynedd neu fwy. Swyddogaeth ganolog Prescoed oedd cynnig cyfleoedd rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) i baratoi carcharorion ar gyfer eu hadsefydlu yn ôl i'r gymuned. Roedd carcharorion yno wedi'u cael yn euog o amrywiaeth eang o droseddau ac wedi gwneud cynnydd digon da i dreulio gweddill eu dedfryd mewn amodau agored.
- 5.13 Yn wahanol i'n harolygiad blaenorol, roedd dadansoddiadau cynhwysfawr o anghenion y boblogaeth ym mhob carchar wedi'u cwblhau (ym Mawrth 2021) a'u defnyddio fel sail i strategaeth benodol ar gyfer lleihau aildroseddu.
- 5.14 Dim ond yn ddiweddar yr oedd cyfarfodydd lleihau aildroseddu wedi ailddechrau yn dilyn cyfyngiadau COVID-19, a oedd yn golygu nad oedd cynllun gweithredu ar y cyd newydd, a oedd yn cyd-fynd â'r strategaethau newydd, wedi cael ei ddatblygu eto. Fodd bynnag, roedd rheolwyr yn y ddau garchar yn ymwybodol o anghenion eu poblogaethau, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio adferiad ar ôl COVID-19. Roeddent yn gwybod beth oedd eu blaenoriaethau ac yn canolbwyntio ar eu cyflawni.
- 5.15 Roedd angen adroddiad system asesu troseddwyr (OASys) ar garcharorion ym Mrynbuga a Prescoed oherwydd hyd eu dedfryd. Roedd yn gadarnhaol bod bron pob carcharor wedi cael asesiad cychwynnol o'u risgiau a'u hanghenion a chynllun dedfryd, ac roedd bron pob un wedi cael ei adolygu yn ystod y 12 mis blaenorol.
- 5.16 Roedd safon y cynlluniau dedfrydu a adolygwyd gennym yn dda – roedd y cynlluniau'n benodol i bob carchar. Ym Mrynbuga, roedd bron pob cynllun yn adlewyrchu'r angen am waith ar ymddygiad troseddol ac yn cynnwys amcanion yn ymwneud â chydymffurfio â'r drefn neu ymgymryd â chyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, er enghraifft. Ym Mhrescoed, roedd y cynlluniau'n canolbwyntio'n briodol ar ailintegreiddio i'r gymuned, cynnal rhwydweithiau teuluol, cyflogaeth a ROTL.
- 5.17 Roedd cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio'n andwyol ar lefel y cyswllt rhwng carcharorion a'u rheolwyr troseddwyr yn y carchardai a'r gwasanaeth prawf yn y ddau garchar. Er bod y cyswllt wedi'i leihau, roedd yr effaith yn llai difrifol ym Mhrescoed, lle'r oedd llawer o garcharorion yn dal i fod y tu allan i'r carchar ar ROTL ac yn gyffredinol roedd llai o angen am gyswllt. Bu clinigau gyda'r nos a thros y penwythnos sy'n cael eu rhedeg gan yr uned rheoli troseddwyr yn gymorth i fynd i'r afael â'r diffyg cyffredinol o gyswllt wedi'i gynllunio ac fe'i gwerthfawrogyd gan lawer o'r carcharorion y buom yn siarad â hwy (gweler paragraff 1.48). Yn ein harolwg, dywedodd bron pob carcharor ym Mhrescoed (92%) eu bod yn gwybod beth roedd angen iddynt ei wneud i gyrraedd eu targedau a dywedodd 75% fod staff yn eu helpu i'w cyrraedd.

- 5.18 Roedd Prescoed yn safle mabwysiadu cynnar ar gyfer y model rheoli troseddwyr yn y ddalfa (gweler Atodiad II: Geirfa) ac roedd lefelau staffio rheolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn ddigonol.
- 5.19 Fodd bynnag, ym Mrynbuga, roedd lefelau staffio rheolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf yn annigonol ac roedd llwythi achosion yn rhy uchel. Yn ystod ein harolwg, roedd yna 1.5 rheolwr troseddwyr prawf cyfwerth ag amser llawn, nad oedd yn ddigon i ddiwallu anghenion y boblogaeth risg uchel, hyd yn oed gyda chymorth y pedwar rheolwr troseddwyr mewn carchar. Yr oedd un rheolwr troseddwyr prawf rhan-amser ar fin gadael, ac yr oedd swydd amser llawn i fod i ddechrau'n fuan. Roedd diffyg rheolwyr troseddwyr prawf a llwythi achosion trwm yn golygu bod cyswllt wedi digwydd yn bennaf mewn ymateb i ddigwyddiadau cerrig milltir allweddol, fel adolygiadau OASys carcharorion a chyn gwrandawriad parôl a dyddiadau rhyddhau sydd ar y gweill. Efallai fod hyn yn dangos yn glir pam fod 65% o garcharorion ym Mrynbuga yn ein harolwg, sydd gryn dipyn yn llai nag yn ein harolwg blaenorol (90%), yn dweud eu bod yn gwybod beth roedd angen iddynt ei wneud i gyflawni eu targedau a dim ond 46% ddywedodd fod staff yn eu helpu i'w cyflawni. Roedd arweinwyr eisoes wedi nodi'r broblem hon ac yn mynd ati yn rhagweithiol i esgoli'n genedlaethol yr angen i gynyddu eu capasiti staffio proffiliedig fel blaenoriaeth.
- 5.20 Roedd yr achosion a adolygwyd gennym yn dangos bod y cynnydd a wnaed gan garcharorion yn erbyn eu cynlluniau dedfryd yn gyffredinol yn weddol dda. Fodd bynnag, ym Mrynbuga, roedd gohirio ymyriadau ar gyfer ymddygiad troseddol a diffyg gwaith un-i-un i yrru dilyniant dedfrydau yn ystod cyfyngiadau'r gyfundrefn wedi cael effaith negyddol ar rai (gweler paragraffau 5.33, 5.34 a 5.35). I'r gwrthwyneb, roedd ROTL ym Mhrescoed wedi cael ei gynnal i raddau da, ac roedd y cynnydd yn dal yn dda i'r rhan fwyaf o garcharorion (gweler paragraff 5.32).

## **Argymhelliad**

- 5.21 **Dylid cynyddu lefelau staffio rheolwyr troseddwyr prawf ym Mrynbuga yn ddigonol i ddarparu llwythi achosion hylaw sy'n cefnogi rheolaeth achosion effeithiol ar gynllunio a chynnydd o ran dedfrydau carcharorion.**

## **Diogelu'r cyhoedd**

- 5.22 Roedd trefniadau amddiffyn y cyhoedd yn y ddau garchar yn cael eu rheoli'n dda. Ym Mrynbuga, roedd y tîm rheoli risg rhyngadrannol (IRMT) yn rheolaidd yn ystyried yr holl newydd-ddyfodiaid a'r rhai oedd i fod i gael eu rhyddhau ar adegau priodol. Roedd y trafodaethau a'r cyfraniadau'n gynhwysfawr ac yn darparu goruchwyliaeth dda, gan sicrhau bod risgiau carcharorion yn cael eu rheoli'n briodol.
- 5.23 Nid oedd gan Prescoed IRMT, a oedd yn golygu bod diffyg llywodraethu a goruchwyllo ar y cyd ar draws y carchar. Roedd yr uwch

swyddog prawf yn ymwybodol o hyn ac roedd cynlluniau datblygedig ar waith i gyflwyno un. Fodd bynnag, yr oeddem yn hyderus bod trefniadau rheoli risg a chynllunio rhyddhau a sefydlwyd ar y cyd â rheolwyr troseddwr cymunedol yn dal i gael eu trin yn effeithiol drwy'r broses asesu risg ROTL ac ar lefel ymarferwyr rheoli troseddwr unigol yn y carchar ac ar brawf.

- 5.24 Yn y ddau garchar, roedd y rhyngweithio rhwng y carchar a rheolwyr troseddwr cymunedol, mewn perthynas â'r rhai a oedd yn destun trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth (MAPPA) a'r rhai oedd i fod i gael eu rhyddhau, yn dda ac yn amserol. Yn y ddau OMU, roedd arweinyddiaeth gadarnhaol yr uwch swyddog prawf yn amlwg a gwelsom reolwyr troseddwr yn y carchar ac ar brawf yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r risgiau. Roedd ansawdd cynlluniau rheoli risg carcharorion yn dda iawn ar y cyfan a chystal ag yr ydym wedi'i weld ers cryn amser.
- 5.25 Lle'r oedd rheolwyr troseddwr cymunedol wedi gofyn am fewnbwn i gyfarfodydd MAPPA, roedd cynnwys adroddiadau MAPPA F (cyfraniad y carchar i'r cyfarfodydd hyn) yn ddigon manwl ar y cyfan, ond roedd rhai o Brescoed yn rhy gryno ac nid oeddent yn cael eu cydlofnodi'n briodol gan yr uwch swyddog prawf.
- 5.26 Roedd y trefniadau ar gyfer cynnal ac adolygu'r gwaith o fonitro galwadau ffôn a'r post yn cael eu rheoli'n dda. Yn ystod ein harolygiad, roedd 19 o garcharorion yn cael eu monitro ar sail trosedd ym Mrynbuga. Ar ôl cyrraedd, roedd carcharorion yn cael eu monitro'n awtomatig am y pedair i bum wythnos gyntaf. Cynhaliwyd adolygiadau prydlon i benderfynu a ddylai'r trefniadau ddod i ben neu barhau a diweddarwyd y logiau monitro.
- 5.27 Roedd tua 85% o garcharorion ym Mrynbuga a 10% ym Mhrescoed yn destun cyfyngiadau cyswllt â phlant, ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael unrhyw gyswllt â phlant o gwbl. Cynhaliodd y ddau garchar asesiadau trylwyr o newydd-ddyfodiaid, yn absenoldeb gwybodaeth gan sefydliadau anfon. Roedd adolygiadau blynyddol o gyfyngiadau cyswllt plant yn cael eu rheoli'n dda ac yn systematig.

## Argymhelliad

- 5.28 **Dylid sefydlu IRMT ym Mhrescoed i sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar y cyd a throsglwyg o drefniadau rheoli risg ar waith ledled y carchar.**

## Categoreiddio a throsglwyddo

- 5.29 Roedd adolygiadau ailcategoreiddio carcharorion ym Mrynbuga yn cael eu rheoli'n briodol. Ystyriodd y Byrddau y rhai ar gyfer cymeradwyo categori D, ond nid oedd y carcharorion yn rhan o wrandawriad y bwrdd ei hun. Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd naw carcharor wedi cael eu throsglwyddo i amodau agored, y rhan fwyaf ohonynt yn mynd i Brescoed. Yn ystod yr arolygiad, roedd yna chwe carchar categori D. Er bod rhesymau cyfiawn pam nad oedd y rhan fwyaf o'r carcharorion



hyn wedi cael eu symud eto, gan gynnwys carcharorion yn gwrthod trosglwyddo, roedd un carcharor wedi bod yn aros ers mis Ionawr 2020.

- 5.30 Roedd uchafswm y carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol a ddaliwyd ar unrhyw un adeg ym Mhrescoed wedi cynyddu ychydig ers ein harolygiad blaenorol, ond roedd hynny wedi ei gyfyngu i 25 yn unig. Roedd carcharorion a oedd ag euogfarn blaenorol neu gyfredol am drosedd rhywiol yn dal i orfod treulio hyd at dri mis ym Mrynbuga cyn cael eu derbyn ym Mhrescoed, hyd yn oed os oeddent eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer amodau categori D, a oedd yn effeithio ar eu gallu i symud ymlaen. Fodd bynnag, roedd carcharorion a oedd yn trosglwyddo i Brescoed o garchar agored arall bellach yn gallu symud yno yn uniongyrchol.
- 5.31 Ym Mhrescoed, roedd 45 o garcharorion wedi cael eu hasesu a'u rhyddhau'n gynnar ar gyrffiw cyfyngu i'r cartref (HDC) yn ystod ychydig mwy na'r 12 mis blaenorol. Roedd y prosesau'n cael eu rheoli'n dda, ac roedd rhyddhau yn digwydd yn amserol ar y cyfan. Nid oedd y boblogaeth ym Mrynbuga yn gymwys ar gyfer HDC o ystyried natur eu heuogfarnau.

### Argymhelliad

- 5.32 **Dylid adolygu'r meini prawf ar gyfer derbyn carcharorion sydd ag euogfarnau rhywiol ym Mhrescoed i sicrhau bod carcharorion yn gallu symud ymlaen yn unol â'r bwriad.** (Argymhelliad diwygiedig S45)

### Ymyriadau

Deilliannau disgwylidig: Mae carcharorion yn gallu cael gafael ar ymyriadau sydd wedi'u dylunio i hyrwyddo adsefydlu llwyddiannus.

- 5.33 Roedd GCPEM wedi gohirio'r rhan fwyaf o'r mathau o ROTL ar ddechrau'r pandemig, ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol bod ROTL ar gyfer carcharorion ym Mhrescoed, a oedd yn gwneud gwaith hanfodol, wedi parhau drwy gydol y gyfundrefn a chyfyngiadau cymunedol. Roedd carcharorion wedi parhau i weithio ar y fferm ar y safle ac roedd ROTL wedi digwydd dros 8,300 o weithiau yn ystod y chwe mis blaenorol, a oedd yn cynnwys tua dwy ran o dair o'r carcharorion yr aseswyd eu bod yn 'barod ar gyfer ROTL'. Roedd y carchar wedi galluogi carcharorion i gael mynediad at gyfleoedd ROTL ehangach y tu hwnt i waith hanfodol, fel rhyddhau dros nos ar gyfer gwaith arall ac i gynnal cysylltiadau teuluol, cyn gynted ag yr oedd y cyfyngiadau'n caniatáu. Yn ystod yr arolygiad, roedd dros 60% o garcharorion ar ryw fath o ROTL, a oedd yn dda. Roedd byrddau asesu ac adolygu ROTL yn dal i gael eu cynnal ac roedd goruchwylio rheoli risg yn dda.
- 5.34 Roedd Brynbuga yn adnodd cenedlaethol ar gyfer darparu rhaglenni triniaeth i droseddwyr rhyw. Cynigiodd y carchar bedair rhaglen

achrededig: Creu Fi Newydd+ (ar gyfer carcharorion a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol, a addaswyd ar gyfer y rheini ag anawsterau dysgu); Horizon (cwrs dwysedd canolig ar gyfer carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol), Kaizen (cwrs dwys iawn ar gyfer y rheini a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol) a'r Rhaglen Rhyw Iach (ar gyfer dynion sy'n cael eu dyfarnu'n euog o drosedd rhywiol a/neu drosedd sy'n cynnwys elfen rywiol). Roedd gohirio'r rhaglenni ym mis Mawrth 2020 yn golygu bod nifer fechan o garcharorion yn gadael Brynbuga heb i'w hanghenion triniaeth gael sylw yn y carchar. Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o dystiolaeth o drosglwyddo effeithiol ymysg rheolwyr troseddwyr cymunedol i sicrhau y gellid diwallu eu hanghenion eithriadol yn y gymuned ar ôl eu rhyddhau.

- 5.35 Roedd hi'n gadarnhaol bod y gwaith o ddarparu'r rhaglen wedi aildechrau cyn gynted â phosibl, ym mis Medi 2020. Roedd y rheolwr seicoleg yn gwybod am anghenion y boblogaeth yn dda a rhoddwyd blaenoriaeth briodol i fynediad carcharorion at raglenni. Roedd rhaglenni wedi cael eu haddasu i gael eu cynnal un i un yn hytrach nag mewn grwpiau, oherwydd diffyg lle a'r angen i gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol diogel COVID-19. Roedd hyn yn golygu y gellid darparu llai o raglenni ac felly roedd llai o garcharorion yn gallu eu cwblhau. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, byddai carcharorion cymwys o'r boblogaeth bresennol a fydd yn cael eu rhyddhau yn 2021, yn gallu cwblhau rhaglen cyn eu dyddiad rhyddhau, a oedd yn gadarnhaol.
- 5.36 Nid oedd tua 30% o'r boblogaeth yn gymwys i ddilyn rhaglen. Roedd cynlluniau i ddatblygu darpariaeth i ddiwallu anghenion y carcharorion hyn wedi cael eu gohirio ym mis Mawrth 2020 ac nid oedd llawer o dystiolaeth o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion troseddu ac ymddygiad cymdeithasol y grŵp hwn. Fodd bynnag, bwriad y carchar oedd sefydlu ac aildechrau'r ddarpariaeth cyn gynted â phosibl.
- 5.37 Ym Mrynbuga a Phrescoed, cafodd carcharorion gefnogaeth dda i reoli eu harian, eu budd-daliadau a'u dyledion. Rhoddodd Ymddiriedolaeth St Giles a staff adsefydlu'r carchardai eu hunain gymorth cyffredinol i helpu carcharorion i reoli eu harian, ac roedd Cristnogion yn Erbyn Tlodi wedi parhau i ddarparu cymorth arbenigol. Yn wahanol i'r arolygiad blaenorol, erbyn hyn roedd gan garcharorion fynediad at staff y Ganolfan Byd Gwaith a oedd yn eu helpu gyda budd-daliadau i baratoi ar gyfer eu rhyddhau. Gallai carcharorion agor cyfrifon banc ac ym Mrynbuga, roedd 17 o gyfrifon wedi cael eu hagor yn ystod y chwe mis blaenorol. Ym Mhrescoed, roedd y broses ymgeisio ar gyfer agor cyfrifon banc wedi gwella, ac yn y chwe mis blaenorol, derbyniwyd 63 o'r 66 cais.
- 5.38 Cafodd carcharorion gefnogaeth dda i ddod o hyd i lety. Roedd data'n dangos bod wyth carcharor ym Mrynbuga ac 17 carcharor ym Mhrescoed wedi gadael yn ystod y 12 mis blaenorol (o fis Mai 2020 i fis Ebrill 2021) heb wybod ble byddent yn aros ar eu noson gyntaf ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd rheolwyr carchardai wedi canfod nad oedd rheolwyr troseddwyr cymunedol bob amser yn diweddarau'r canlyniadau

llety cadarnhaol yn gywir. Ceisiodd y rheolwyr gywiro hyn drwy weithio gyda Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru. Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn dangos bod nifer y carcharorion a ryddhawyd heb lety ar eu noson gyntaf yn is na'r ffigurau a gofnodwyd.

## Cynllunio'r rhyddhau

Deilliannau disgwylidig: Mae anghenion ail-integreiddio penodol carcharorion penodol yn cael eu diwallu drwy gynllun amlasiantaeth unigol er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ail-integreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.

- 5.39 Ers ein harolygiad blaenorol, roedd Brynbuga wedi cael ei ddynodi'n garchar ailsefydlu ac erbyn hyn roedd ganddo ddarpariaeth cwmni adsefydlu cymunedol (CRC) i gefnogi carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd 71 o garcharorion wedi cael eu rhyddhau o Frynbuga a 162 o Brescoed.
- 5.40 Comisiynodd CRC Seetec Ymddiriedolaeth St Giles i ddarparu cymorth adsefydlu ledled y ddau garchar, gyda chymorth gan asiantaethau allanol a staff, cyfoedion a swyddogion y carchardai eu hunain.
- 5.41 Roedd staff CRC wedi bod yn darparu gwasanaeth o bell yn bennaf drwy gydol cyfyngiadau'r gyfundrefn, ond yn ddiweddar roeddent wedi dychwelyd i gynig cymorth wyneb yn wyneb. Cafodd carcharorion yn y ddau garchar gefnogaeth dda i'w helpu gyda'u trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau, ac ym mhob un o'r achosion a adolygwyd gennym, roedd y cynlluniau adsefydlu'n amserol ac o safon ddigonol.

## Section 6 Argymhellion yn yr adroddiad hwn

Isod ceir rhestr o bryderon ac argymhellion rheolaidd a newydd yn yr adroddiad hwn.

### Prif bryderon ac argymhellion

- 6.1 Pryder allweddol (1.41): Roedd polisi dim goddefgarwch Prescoed yn dychwelyd carcharorion i amodau caeedig heb roi ystyriaeth briodol i unrhyw fesurau lliniaru, yr effaith gyffredinol ar y carcharor ac a oedd y penderfyniad yn ymateb cymesur. Roedd nifer y dychweliadau i amodau caeedig ym Mhrescoed yn uwch nag yn y rhan fwyaf o garchardai agored eraill.

**Prif argymhelliad: Dim ond yn dilyn adolygiad priodol o ailgategoreiddio sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r holl amgylchiadau y dylid dychwelyd carcharorion i amodau caeedig, ac sy'n sicrhau bod y penderfyniad bob amser yn ymateb cymesur.** (I'r llywodraethwr)

- 6.2 Pryder allweddol (1.42): Roedd fferyllwyr arweiniol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi rhoi'r gorau i ddarparu mewnbyn rheolaidd ym Mrynbuga a Phrescoed. Roedd hyn wedi arwain at: fethiant i sicrhau bod meddyginiaethau'n briodol a bod cleifion yn gwybod sut i'w cymryd; staff annigonol mewn fferyllfeydd i sicrhau bod y cyflenwad meddyginiaethau'n ddiogel; ystod gyfyngedig o feddyginiaethau i gleifion eu prynu i drin mân anhwylderau neu nad oedd angen i feddyg eu rhagnodi; a bylchau o ran goruchwyllo prosesau a gweithdrefnau gwasanaethau fferyllol.

**Prif argymhelliad: Dylid cynnwys mwy o fferyllwyr i oruchwyllo safonau proffesiynol, protocolau a gweithdrefnau'r gwasanaeth i sicrhau bod y cyflenwad o feddyginiaethau'n ddiogel.** (I'r llywodraethwr)

### Argymhellion

- 6.3 Argymhelliad (2.9): Dylai pawb sy'n cyrraedd o'r newydd allu gwneud galwad ffôn ar eu noson gyntaf. (I'r llywodraethwr)
- 6.4 Argymhelliad (2.32): Dim ond ar sail gwybodaeth neu amheuaeth benodol y dylid diosg-chwilio carcharorion. (Argymhelliad wedi'i ailddatgan 1.29) (I'r llywodraethwr)
- 6.5 Argymhelliad (2.39): Dylai cyfarfodydd rheoli diogelwch gael eu hintegreiddio'n llawn i'r ddau garchar a dylai fod ganddynt gynllun gweithredu effeithiol i sbarduno gwelliant parhaus. (I'r llywodraethwr)

- 6.6 Argymhelliad (3.13): Ni ddylid cadw carcharorion mewn celloedd aml-breswyliaeth sy'n rhy fach iddynt gael digon o le personol, dodrefn a phreifatrwydd. (I'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf)
- 6.7 Argymhelliad (3.21): Dylid cynnig mynediad cynnar i amrywiaeth o nwyddau bwyd i garcharorion sydd newydd gyrraedd Prescoed nes iddynt gael eu archeb siop lawn gyntaf. (I'r llywodraethwr)
- 6.8 Argymhelliad (3.32): Dylai arweinwyr a rheolwyr gynnwys y camau gweithredu a godir mewn fforymau nodweddiadol gwarchoddedig a chyfarfodydd pwyllgorau cydraddoldeb mewn cynllun gweithredu cydraddoldeb a greffir arno yn rheolaidd. (I'r llywodraethwr)
- 6.9 Argymhelliad (3.49): Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod ystafell aml-ffydd sy'n addas ar gyfer ymarfer ffydd ar gael, a darparu cefnogaeth un-i-un. (I'r llywodraethwr)
- 6.10 Argymhelliad (3.50): Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod fforymau ffydd yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion sydd â phryderon sy'n ymwneud â ffydd. (I'r llywodraethwr)
- 6.11 Argymhelliad (4.8): Dylai arweinwyr sicrhau bod llyfrgellwyr ar y ddau safle i roi cymorth i garcharorion sy'n gweithio yno, gan sicrhau bod y stociau'n cael eu hailgyflenwi ac adfer cysylltiadau â llyfrgell Sir Fynwy. (I'r llywodraethwr)
- 6.12 Argymhelliad (4.9): Dylai arweinwyr lenwi swyddi gwag hyfforddwyr Addysg Gorfforol a rhoi mwy o fynediad i bob carcharor i'r gampfa. (I'r llywodraethwr)
- 6.13 Argymhelliad (4.24): Dylai rheolwyr wella mynediad carcharorion at adnoddau dysgu a rhyngweithiol sy'n seiliedig ar TG er mwyn cryfhau eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. (I'r llywodraethwr)
- 6.14 Argymhelliad (4.25): Dylid cryfhau cydymffurfiaeth y carchar â'i strategaeth iaith Gymraeg ymhellach. (I'r llywodraethwr)
- 6.15 Argymhelliad (5.9): Dylai arweinwyr sicrhau bod carcharorion yn gallu gwneud galwadau ffôn yn breifat. (I'r llywodraethwr)
- 6.16 Argymhelliad (5.10): Dylid gosod teleffoni yn y celloedd. (I'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf)
- 6.17 Argymhelliad (5.10): Dylai arweinwyr gynyddu mynediad at alwadau fideo diogel er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd carcharorion i gadw mewn cysylltiad â'u plant a'u teuluoedd. (I'r llywodraethwr)
- 6.18 Argymhelliad (5.20): **Dylid cynyddu lefelau staffio rheolwyr troseddwr prawf ym Mrynbuga yn ddigonol i ddarparu llwythi achosion hylaw sy'n cefnogi rheolaeth achosion effeithiol ar gynllunio a chynnydd o ran dedfrydau carcharorion.** (I'r llywodraethwr)

- 6.19 Argymhelliad (5.27): Dylid sefydlu IRMT ym Mhrescoed i sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar y cyd a throsolwg o drefniadau rheoli risg ar waith ledled y carchar. (I'r llywodraethwr)
- 6.20 Argymhelliad (5.31): Dylid adolygu'r meini prawf ar gyfer derbyn carcharorion sydd ag euogfarnau rhywiol ym Mhrescoed i sicrhau bod carcharorion yn gallu symud ymlaen yn unol â'r bwriad. (Argymhelliad wedi'i ailddatgan S45) (i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf)

# Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf

## Argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf

Dyma grynodedb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad llawn diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaed, a drefnwyd dan y pedwar prawf ar gyfer carchar iach. Os yw argymhelliad wedi'i ailadrodd yn y prif adroddiad, darperir ei rif paragraff newydd hefyd.

## Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2017, cafodd dynion gefnogaeth dda pan wnaethant gyrraedd y carchar. Roedd Brynbuga a Phrescoed yn ddiogel iawn; dywedodd y rhan fwyaf o ddynion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac mai ychydig iawn o ddigwyddiadau o drais neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a welwyd. Roedd mân wrthdaro ac anghydfodau yn cael eu rheoli'n dda ac ychydig o ddefnydd a wneid o fesurau disgyblu ffurfiol. At ei gilydd, roedd y trefniadau diogelwch yn gymesur. Roedd y gofal ar gyfer y nifer fach o ddynion a oedd yn agored i niwed yn dda, er bod angen gwella rhai prosesau. Roedd angen datblygu trefniadau diogelu oedolion ffurfiol. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## Argymhellion

Dylid ystyried ceisiadau am statws uwch yn gyflym er mwyn galluogi carcharorion haeddiannol i fanteisio ar freintiau lefel uwch. (1.17)

### **Cyflawnwyd**

Dylai rheolwyr sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi ar draws pob agwedd ar reoli ymddygiad er mwyn canfod unrhyw feysydd sy'n peri pryder lle mae angen gweithredu. (1.22)

### **Cyflawnwyd**

Dim ond ar sail gwybodaeth neu amheuaeth benodol y dylid diosg-chwilio carcharorion. (1.29)

**Heb ei gyflawni** (Argymhelliad wedi ei ailadrodd, 2.32)

Dylid gwella'r rheolaeth strategol ar hunanladdiad a hunan-niwed a dylid canolbwyntio ar ddadansoddi data a deall anghenion penodol dynion ar bob safle. (1.36)

### **Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylid archwilio offer argyfwng ym Mrynbuga yn rheolaidd a'i ailstocio. (1.37)

## **Cyflawnwyd**

Dylid rhoi prosesau ffurfiol ar waith i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl a dylid hyfforddi staff i nodi risgiau a gwneud atgyfeiriadau priodol. (1.40)

## **Cyflawnwyd**

## **Parch**

**Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2017, roedd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn gryf. Roedd y rhan fwyaf o'r celloedd ym Mrynbuga yn llawn iawn. Roedd amodau byw Prescoed yn eithaf da. Roedd dynion yn derbyn yr hyn yr oedd arnynt ei angen i fyw'n weddus ac roedd y ddau garchar yn lân. Roedd y bwyd yn dda, ond roedd prydau bwyd yn cael eu gweini'n rhy gynnar ym Mrynbuga. Roedd ymgynghori, ceisiadau a chwynion yn cael eu rheoli'n dda. Nid oedd agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u datblygu'n ddigonol, ond er gwaethaf cyfyngiadau ar yr amgylchedd, roedd rhywfaint o waith da'n cael ei wneud gyda'r nifer fawr o ddynion anabl a hŷn ym Mrynbuga. Roedd y ddarpariaeth gofal iechyd yn weddol dda yn gyffredinol, ond roedd yr amseroedd aros ar gyfer rhai triniaethau yn annerbyniol. Yr oedd cefnogaeth gofal cymdeithasol ym Mrynbuga a'r rhaglen camddefnyddio sylweddau ym Mhrescoed yn rhagorol. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## **Argymhellion**

Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses DIRF. Dylid ymchwilio'n drylwyr i DIRFS a sicrhau ansawdd yr ymatebion. (2.23)

## **Cyflawnwyd**

Dylid defnyddio fforymau rheolaidd gyda dynion du a lleiafrifoedd ethnig, Teithwyr a charcharorion sy'n wladolion tramor i ganfod eu hanghenion a'u pryderon a datblygu gwasanaethau priodol. (2.37)

## **Heb ei gyflawni**

Ni ddylai carcharorion orfod aros y tu allan i'r adran iechyd ym Mrynbuga ar adegau prysur mewn tywydd gwael. (2.51)

## **Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion allu mynegi cwynion a phryderon iechyd drwy system glir, gyfrinachol a chydwybodol. (2.52)

## **Cyflawnwyd**

Dylid nodi cleifion ag anghenion iechyd cymhleth a dylai fod ganddynt gynllun gofal ffurfiol wedi'i oruchwylio gan gydlynnydd gofal. (2.61)

## **Cyflawnwyd**



Dylai cleifion y mae angen cymorth iechyd meddwl parhaus arnynt gael asesiadau clir wedi'u cofnodi, a chynlluniau gofal sy'n cael eu llunio gyda'r carcharor, sydd wedi'u nodi yn eu cofnodion clinigol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. (2.75)

### **Cyflawnwyd**

Dylai systemau cadarn sicrhau bod cleifion yn cael yr holl wiriadau iechyd corfforol gofynnol sy'n gysylltiedig â'u meddyginiaeth a'u cyflwr ar bresgripsiwn. (2.76)

### **Cyflawnwyd**

Dylai'r strategaeth cyffuriau ac alcohol adlewyrchu'n benodol y gwahanol boblogaethau ym mhob carchar a bod yn seiliedig ar asesiad cyfredol o anghenion. Dylai'r broses o weithredu'r strategaeth gael ei gyrru gan gynllun gweithredu deinamig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd yng nghyfarfod y pwyllgor cyffuriau ac alcohol. (2.83)

### **Cyflawnwyd**

Dylai fod gan garcharorion fynediad rhwydd at gyngor a chlinigau fferyllwyr sy'n cyfateb i'r gymuned, fel adolygiadau o'r defnydd o feddyginiaethau. (2.90)

### **Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion gael mynediad prydlon at feddyginiaeth dros y cownter ar gyfer mân anafiadau a salwch, gan gynnwys y tu allan i oriau. (2.91)

### **Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai carcharorion gael apwyntiadau deintyddol arferol ym Mrynbuga o fewn chwe wythnos ac ym Mhrescoed o fewn amseroedd aros sy'n cyfateb i'r gymuned. (2.94)

### **Cyflawnwyd**

## **Gweithgarwch pwrpasol**

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2017, roedd amser allan o'r gell yn y ddau safle yn dda iawn ac roedd gan ddynion fynediad da at ymarfer y tu allan. Darparwyd ystod dda o weithgareddau i gefnogi defnydd cynhyrchiol o amser rhydd. Roedd ffocws clir ar ddatblygu ansawdd ac amrywiaeth y gweithgareddau. Roedd digon o gyfleoedd i bob dyn gymryd rhan mewn gweithgareddau ac roedd y rhan fwyaf o ddynion yn gwneud cynnydd da. Roedd dynion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gawsant. Roedd yr addysgu'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r trefniadau rheoli er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## **Argymhelliad allweddol**

Dylai'r carchardai gryfhau'r gwaith o reoli ansawdd mewn addysg a sgiliau i sicrhau bod gwerthusiadau'n canolbwyntio ar gyflawniadau a chynnydd carcharorion, a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol a dadansoddi data. (S44)

### **Cyflawnwyd**

## **Argymhellion**

Dylai'r carchar sicrhau bod athrawon yn cael eu neilltuo i feysydd sy'n manteisio i'r eithaf ar eu harbenigedd. (3.31)

### **Cyflawnwyd**

Dylai'r carchar wella cynlluniau dysgu unigol. (3.43)

### **Cyflawnwyd**

## **Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau**

**Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddan nhw'n aildroseddu ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2017, roedd nodau adsefydlu sylfaenol Brynbuga a Phrescoed yn cael eu deall yn dda. Roedd gwaith plant a theuluoedd yn weddol dda ym Mrynbuga, ac yn rhagorol ym Mhrescoed. Roedd y gwaith rheoli troseddwy'r ym Mrynbuga yn gymysg. Gallai dynion a ymgymerodd â chysiau ymddygiad troseddol ganolbwyntio'n dda ar leihau risg a chynnydd. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith o reoli'r rhai nad oeddent yn ymgymryd â rhaglenni'n ddigonol ac nid oedd y lefelau cyswllt yn ddigon da. Mae'r terfyn mympwyol ar nifer y troseddwy'r rhyw y gellid eu cadw ym Mhrescoed yn cyfyngu ar gyfleoedd i rai dynion. Cynigiodd Brynbuga ystod dda o raglenni ymddygiad troseddol perthnasol, a oedd bellach yn cynnwys dynion yn gwadu eu trosedd. Cynigiodd Brynbuga hefyd rywfaint o gymorth adsefydlu ymarferol da. Er nad oedd effaith darpariaeth y cwmni adsefydlu cymunedol ym Mhrescoed yn glir, roedd y cyfleoedd niferus i ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL) yn cefnogi dynion yn effeithiol wrth baratoi ar gyfer eu rhyddhau. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda ym Mrynbuga ac yn dda ym Mhrescoed yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## **Argymhellion allweddol**

Dylid adolygu'r meini prawf ar gyfer derbyn carcharorion sydd ag euogfarnau rhywiol ym Mhrescoed i sicrhau bod carcharorion yn gallu symud ymlaen yn unol â'r bwriad. (S45)

### **Cyflawnwyd yn rhannol** (ailadroddwyd yr argymhelliad, 5.31)

Dylid gwella'r oruchwyliaeth ar waith rheoli troseddwr ym Mrynbuga i sicrhau bod dynion yn cael cymorth effeithiol i leihau eu risg o niwed, a symud ymlaen tuag at gael eu rhyddhau. (S46)

### **Cyflawnwyd**

Dylid datblygu strategaeth ar gyfer rheoli dynion nad ydynt yn gymwys i fynychu'r rhaglenni ymddygiad troseddol a gynigir ym Mrynbuga. (S47)

### **Cyflawnwyd yn rhannol**

### **Argymhellion**

Dylid gwella'r cyfleusterau ymweld ym Mrynbuga. (4.8)

### **Cyflawnwyd**

Dylai'r carchardai ymgynghori ag ymwelwyr i weld pa gefnogaeth ymarferol y gellid ei chynnig i'w helpu i gyrraedd y carchardai. (4.9)

### **Cyflawnwyd**

Dylid cynnal dadansoddiadau mwy cynhwysfawr o anghenion y boblogaeth ym mhob carchar a'u defnyddio fel sail i strategaeth benodol ar gyfer lleihau aildroseddu. (4.27)

### **Cyflawnwyd**

Dylai dynion ym Mrynbuga gael mynediad at y Ganolfan Byd Gwaith i'w helpu gyda hawliadau budd-dal newydd i baratoi ar gyfer eu rhyddhau. (4.32)

### **Cyflawnwyd**

Dylid gwella'r broses ymgeisio ar gyfer cyfrifon banc i ddynion o Brescoed. (4.33)

### **Cyflawnwyd**

Dylid gwella'r gwaith o gasglu data ym Mhrescoed fel y gellir gwerthuso effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer rhyddhau'r CRC a datblygu cysylltiadau rhwng y CRC a'r Uned Rheoli Troseddwr er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. (4.37)

### **Cyflawnwyd**

# Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwy'r ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewn fudwyr, dalfa'r heddlu a'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mekanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mekanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cynnwys crynodeb o amodau a thriniaeth carcharorion, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, Mae hunanladdiad yn bryder i bawb, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer carchardai dynion, y profion yw:

## **Diogelwch**

Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.

## **Parch**

Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.

## **Gweithgarwch pwrpasol**

Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

## **Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau**

Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau.

Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau eu tebygolrwydd o ailddosoddu a'u risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posibl: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi roi sylw iddynt.

## **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn dda.**

Does dim tystiolaeth yr effeithir yn niweidiol ar ganlyniadau carcharorion mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae'r canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda.**

Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fechan o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

**Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.**

Mae tystiolaeth yr effeithir yn niweidiol ar ganlyniadau carcharorion mewn sawl maes neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae yna broblemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

**Mae'r canlyniadau i garcharorion yn wael.**

Mae tystiolaeth yr effeithir yn ddifrifol ar ganlyniadau carcharorion gan arferion cyfredol. Methir â sicrhau hyd yn oed driniaeth a/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at un o'r canlynol:

**Prif bryderon ac argymhellion:** nodi'r materion sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion a'u bod wedi'u dylunio i helpu sefydliadau i flaenoriaethu a mynd i'r afael â'r gwendidau mwyaf sylweddol o ran triniaeth ac amodau carcharorion.

**Argymhellion:** bydd angen newid sylweddol a/neu adnoddau newydd neu wedi'u hailgyfeirio, felly nid oes modd eu cyflawni ar unwaith, a byddant yn cael eu adolygu i'w rhoi ar waith mewn arolygiadau yn y dyfodol.

**Engbreiffiau o arferion cadarnhaol nodedig:** gwaith arloesol neu ymarfer sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gall sefydliadau eraill ddysgu ohonynt. Mae arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu o'r ymarfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon carcharorion a staff; trafodaethau gyda carcharorion; trafodaethau gyda staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi'i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd ac maent yn cynnwys dilyn argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Cynhelir pob arolygiad o garchardai ar y cyd ag Ofsted neu Estyn (Cymru), y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC). Cynhelir rhai

hefyd gydag Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau ein harchwiliad yn erbyn y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein Disgwyliadau. Meini prawf ar gyfer asesu'r driniaeth a'r amodau ar gyfer dynion mewn carchardai (Fersiwn 5, 2017) (ar gael ar ein gwefan yn

<https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprisons/our-expectations/prison-expectations/>). Mae'r rhifau cyfeirnod ar ddiwedd rhai argymhellion yn dangos eu bod yn cael eu hailadrodd ac yn darparu lleoliad paragraff yr argymhelliad blaenorol yn yr adroddiad diwethaf. Mae Adran 6 yn rhestru'r holl argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Mae Adran 7 yn rhestru argymhellion yr arolygiad llawn blaenorol (a'r ymweliad craffu lle bo hynny'n berthnasol), a'n hasesiad o a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o garcharorion a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Atodiad II: Rhagor o adnoddau). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd yna mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth mewn canlyniadau.

## Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

Martin Lomas	Dirprwy brif arolygydd
Sara Pennington	Arweinydd y Tîm
David Foot	Arolygydd
Natalie Heeks	Arolygydd
Jade Richards	Arolygydd
Paul Rowlands	Arolygydd
Esra Sari	Arolygydd
Heather Acornley	Ymchwilydd
Annie Bunce	Ymchwilydd
Becky Duffield	Ymchwilydd
Rahul Jalil	Ymchwilydd
Amilcar Johnson	Ymchwilydd
Isabella Raucci	Ymchwilydd
Shannon Sahni	Ymchwilydd
Paul Tarbuck	Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol arweiniol
Shaun Thomson	Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol
David Green	Arolygiaeth Iechyd Cymru
Missbah Caudry	Arolygydd, Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Deborah Hylands	Arolygydd, Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Alun Connick	Arolygydd Estyn
Martyn Griffiths	Arolygydd rheoli troseddwy



## Atodiad II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws. Os bydd angen eglurhad arnoch o unrhyw dermau eraill, edrychwch ar y rhestr dermau hirach sydd ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/about-our-inspections/>

### **Lle byw arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol**

CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl lle byw ardystiedig mewn sefydliad ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, megis celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg difrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i redeg y drefn a gynlluniwyd yn briodol.

### **Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)**

Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

### **Cynllun gweithiwr allweddol**

Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystâd gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchar lwyth achosion o tua chwe carcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol gyda carcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu cadarnhaol.

### **Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC)**

Mae'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC), sy'n cael ei gyflwyno ar draws yr ystâd gaeedig o garchardai i ddynion, yn golygu bod swyddogion carchar yn cynnal sesiynau gwaith allweddol gyda carcharorion (a roddwyd ar waith yn ystod 2018-19) a rheoli achosion, a sefydlodd rôl rheolwr troseddwyr y carchar (POM) o 1 Hydref 2019 ymlaen. Ar 31 Mawrth 2021, cafodd model OMiC penodol ar gyfer carchardai agored i ddynion, nad yw'n cynnwys gwaith allweddol, ei gyflwyno.

### **Cyfarpar diogelu personol**

Cyfarpar diogelwch gan gynnwys masgiau, ffedogau a menig, sy'n cael eu gwisgo gan weithwyr rheng flaen yn ystod pandemig COVID-19.

### **Nodweddion Gwarchodedig**

Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

## **Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl**

Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn:

- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); a
- sydd yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu amddiffyn eu hunain rhag naill ai'r risg o gam-drin ac esgeuluso, neu'r profiad o hynny (Deddf Gofal 2014).

## **Cynllun adfer**

Mae cynlluniau adfer yn cael eu cyhoeddi gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM. Eu nod yw sicrhau cysondeb wrth i lywodraethwyr wneud penderfyniadau, drwy nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i garchardai symud o'r drefn fwyaf cyfyngedig i'r lleiaf cyfyngedig wrth iddynt lacio cyfyngiadau COVID-19. Ewch i: <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-national-framework-for-prison-regimes-and-services>

## **Uned cohort dros dro (RCU)**

Uned lle mae carcharorion sydd newydd gyrraedd yn cael eu cadw mewn cwarantyn am rhwng saith a 10 diwrnod.

## **Galwadau fideo diogel**

System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn llwytho ap i lawr i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu ymweliad, rhaid i ddefnyddwyr lwytho ID dilys i fyny.

## **Pecyn gofal cymdeithasol**

Lefel o ofal personol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn dilyn asesiad o anghenion cymdeithasol a wnaed gan yr awdurdod lleol (hynny yw, cymorth gydag ymolchi, mynd i'r bath/cawod, mynd i'r toiled, gweithgareddau byw bob dydd ayb, ond nid gofal meddygol).

## **Amser allan o'r gell**

Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgareddau pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd i gysylltu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

## **Atodiad III Rhagor o adnoddau**

Mae rhagor o adnoddau y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn wedi cael eu cyhoeddi gyda'r adroddiad ar wefan Arolygiaeth Carchardai EM. Ar gyfer yr adroddiad hwn, y rhain yw (dileer fel sy'n ofynnol):

### **Proffil poblogaeth carchardai**

Gofynnwn am broffil poblogaeth o bob carchar fel rhan o'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

### **Methodoleg a chanlyniadau'r arolwg o garcharorion**

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a'r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau'r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk).

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: [hmiprison.enquiries@hmiprison.gsi.gov.uk](mailto:hmiprison.enquiries@hmiprison.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn:  
<http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/>

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:  
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi  
3ydd llawr  
10 South Colonnade  
Canary Wharf  
Llundain  
E14 4PU  
Lloegr

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EM oni nodir yn wahanol.